



Cyfarfod

PWYLLGOR IAITH

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD LLUN, 9FED CHWEFROR, 2026

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Am fynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni

Pwynt Cyswllt

Rhodri Jones

01286 679556

rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru

PWYLLGOR IAITH

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Rhys Tudur
Menna Baines
Alan Jones Evans
Olaf Cai Larsen
Meryl Roberts

Beca Brown
Elfed Wyn ap Elwyn
Jina Gwyrfa
Gwynfor Owen
Elfed Williams

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Wendy Cleaver
Gwilym Jones
Hefin Underwood

Beth Lawton
Anne Lloyd-Jones

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

Aelod arall a wahoddir

Y Cyngorydd Llio Elenid Owen, Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol
a'r Gymraeg.

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

4 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2025 fel rhai cywir.

5. ADRODDIAD YR ADRAN ADDYSG AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023-2033 11 - 18

I ystyried yr adroddiad.

6. ADRODDIAD YR ADRAN TAI AC EIDDO AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023-2033 19 - 23

I ystyried yr adroddiad.

7. ADRODDIAD YR ADRAN GWASANAETHAU CORFFORAETHOL AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023-2033 24 - 40

I ystyried yr adroddiad.

PWYLLGOR IAITH: 13 HYDREF 2025

YN BRESENNOL:

Y Cynghorwyr: Menna Baines (Cadeirydd) a Meryl Roberts (Is-gadeirydd)

Rhys Tudur, Menna Baines, Alan Jones Evans, Olaf Cai Larsen, Elfed Wyn ap Elwyn, Jina Gwyrfai, Gwynfor Owen, Elfed Williams, Gwilym Jones, Hefin Underwood, Beth Lawton ac Anne Lloyd Jones.

Swyddogion: Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Llio Mai Dafydd (Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg), Nia Lewis (Ymgynghorydd Iaith) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

HEFYD YN BRESENNOL:

- Eitem 5: Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd) a Carwyn Meredydd (Uwch Swyddog Gweithredol)
- Eitem 6: Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Cyfrifeg a Phensiynau) a Huw Ynyr (Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth)
- Eitem 7: Steffan Jones (Pennaeth Prifffyrdd, Peirianeg ac YGC) a Sion Arwel Jones (Rheolwr Datblygu Busnes)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorydd Beca Brown.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Ni dderbyniwyd unrhyw fater brys.

4. COFNODON

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2025 fel rhai cywir.

5. ADRODDIAD YR ADRAN AMGYLCHEDD AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023-2023

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth yr Adran Amgylchedd ac yr Uwch Swyddog Gweithredol. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Atgoffwyd bod yr adran yn cynnwys amrediad o wasanaethau rheng flaen ac yn dod i gyswllt gyda'r cyhoedd yn gyson drwy feysydd megis gwastraff ac ailgylchu, trafnidiaeth, cynllunio a gwarchod y cyhoedd. Sicrhawyd bod pob ymdrech yn cael ei wneud er mwyn

sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cael eu cyflawni drwy iaith dewis y cwsmer, gan sicrhau bod gwasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Adroddwyd bod yr Adran yn arwain ar brosiect Cynllun y Cyngor o baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd, sy'n flaenoriaeth o fewn Cynllun y Cyngor 2023-28 (Gwynedd Werdd). Yn yr un modd, nodwyd bod y Tîm Polisi Cynllunio yn monitro'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd 2011-26 ac yn paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol yn gyson. Pwysleisiwyd bod Polisi Cynllunio PS1, sydd yn ymwneud â'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, yn ganolog i'r Cynllunio a'r Canllawiau hyn. Mynegwyd balchder bod y ddarpariaeth hon yn mynd ymhellach na'r gofynion statudol Llywodraeth Cymru ar yr iaith Gymraeg, gan rannu enghraifft bod y gofynion a'r arweiniad ar asesiadau a datganiadau'r iaith Gymraeg o fewn y maes yn fanylach na'r hyn a ddisgwyllir yn genedlaethol.

Tynnwyd sylw mai Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4, gan nodi ei bod yn arf i sicrhau bod tai yng Ngwynedd ar gael i drigolion a bod yr iaith Gymraeg yn cael ei gefnogi. Cydnabuwyd bod heriau yn wynebu'r cyfarwyddyd ar hyn o bryd ond ei fod yn parhau i fod yn weithredol.

Amlygwyd bod gan y Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladau gyfrifoldeb am reoli enwi strydoedd ac enwi a rhifo eiddo. Sicrhwyd bod y gwasanaeth yn cymryd ymagwedd ragweithiol i amlygu arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol enwau Cymraeg ar eiddo, er y cydnabuwyd nad oes ganddynt unrhyw bŵer i wrthod ceisiadau oni bai bod enwau yn dyblygu neu os nad yw'r dewis enw yn briodol. Adroddwyd bod 113 o geisiadau wedi dod i law er mwyn newid neu cofrestru enwau eiddo a bod 88% o'r enwau a gofrestrwyd yn rhai Cymraeg. Ymhellach, mynegwyd balchder bod 18 perchennog eiddo wedi newid enw eu heiddo o'r Saesneg yn ôl i'r Gymraeg yn dilyn trafodaethau gyda'r Gwasanaeth. Yn debyg, cyfeiriwyd at y Gwasanaeth Cynllunio a osodwyd amod cynllunio ar 54 o fusnesau newydd a 110 o dai newydd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu henwi yn Gymraeg.

Yn dilyn cais gan aelodau'r pwyllgor, darparwyd diweddariad ar becyn addysg ddwyieithog 'Tir a Môr' dan arweiniad tîm Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau. Mynegwyd balchder bod copïau caled o'r pecyn wedi cael eu dosbarthu o bob ysgol gynradd yng Ngwynedd ers i'r Adran gyflwyno eu hadroddiad blaenorol i'r Pwyllgor hwn. Ymhelaethwyd bod y tîm Ardal Cadwraeth Arbennig hefyd yn gweithio i gynhyrchu cylchgrawn dwyieithog 'O Dan y Don', er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o amgylchedd morol unigryw'r ardal a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg.

Diweddarwyd bod yr Adran wedi bod yn gweithio ar ddarparu hyfforddiant angenrheidiol yn ysgolion cynradd ac uwchradd Gwynedd. Mynegwyd balchder bod oddeutu 3,500 o blant wedi derbyn hyfforddiant cyffredinol ar ddiogelwch y ffordd drwy gyfrwng y Gymraeg. Ymhelaethwyd bod oddeutu 800 o ddisgyblion wedi derbyn hyfforddiant seiclo.

Mynegwyd balchder bod yr Adran wedi cydweithio gyda haneswyr yn ardal Bethesda, y gymdeithas leol yn ogystal â Gwasanaeth Archifau'r Cyngor er mwyn gosod llinell amser dwyieithog ger 'Coeden Meurig' er mwyn nodi digwyddiadau o bwysigrwydd hanesyddol sydd wedi cymryd lle yn Nyffryn Ogwen yn ystod y 500 mlynedd ers i'r goeden gael ei phlannu. Ymhelaethwyd bod bwrdd arddangos arall wedi cael ei osod er mwyn pwysleisio arwyddocâd y goeden a'r planhigion ac anifeiliaid sydd gerllaw, gan nodi bod ymateb y cyhoedd i'r prosiect wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Adroddwyd bod 93% o staff yr Adran wedi cwblhau eu hunanasesiad iaith gan gadarnhau bod 89% o'r aelodau staff hynny yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd. Ystyriwyd bod hyder unigolion am eu sgiliau ieithyddol yn ffactor sydd yn effeithio ar y canlyniad hwn gan fod rhai aelodau staff yn feirniadol o'u sgiliau. Fodd bynnag, sicrhwyd bod yr Adran yn

ymgymryd â phob cyfle i aelodau staff i fynychu hyfforddiant ac ymarfer eu sgiliau Cymraeg.

Diolchwyd am gefnogaeth gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor sydd wedi bod yn cydweithio â'r Adran Amgylchedd er mwyn sicrhau bod fersiynau Cymraeg rai rhaglenni meddalwedd ar gael yn y Gymraeg ble nad oedd hynny yn bosib yn flaenorol. Eglurwyd bod nifer o systemau'r gwasanaethau gwastraff a llunio cylchdeithiau ar gael yn Saesneg yn unig gan eu bod yn rhai arbenigol ac yn cael eu cynhyrchu y tu hwnt i Gymru, ond bod y cydweithio hwn gyda'r gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth wedi caniatáu i'r Cyngor gynnig y meddalwedd yn y Gymraeg i'r cyhoedd.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Mewn ymateb i ymholiad am gyflwyno prosiect tebyg i hysbysfwrdd 'Coeden Meurig' ym Methesda i ardaloedd eraill yng Ngwynedd, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran y byddai'n hapus i gydweithio gyda chymunedau eraill i ddatblygu cynllun o'r fath. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod y prosiect hwn wedi cael ei ariannu gan arian grant ac felly byddai angen ystyried opsiynau ariannu wrth gysidro unrhyw brosiect pellach. Mewn ymateb i ymholiad pellach am gydweithio gwarchodfeydd natur ar gyfer cynnal prosiect o'r fath, eglurodd Pennaeth yr Adran y byddai hyn yn fwy heriol i'w wireddu gan nad oes gan y Cyngor reolaeth o'r tir.

Mewn ymateb i ymholiad ar sut oedd yr Adran yn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn derbyn ystyriaeth deg wrth lunio Cynllun Datblygu Lleol, sicrhaodd Pennaeth yr Adran bod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i'r Cynllun. Eglurwyd bod Gweithgor wedi cael ei sefydlu ar gyfer datblygu'r Cynllun a bod y mwyafrif o'r sgysiau sydd yn cael eu cynnal yn gysylltiedig â'r iaith er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn ym mhob agwedd ohono.

Derbyniwyd sylw yr ystyrir bod nifer o swyddogion y gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu yn ardal Meirionnydd yn ddi-gymraeg a bod negyddiaeth cyffredinol i waith y gwasanaeth yn yr ardal, gan ofyn i'r gwasanaeth pa waith sydd yn mynd rhagddo i newid meddylfryd y cyhoedd at y gwaith er mwyn denu pobl i ddilyn gyrfa o fewn y gwasanaeth. Mewn ymateb i'r sylwadau, cydnabuodd Pennaeth yr Adran bod heriau wedi bod o fewn y gwasanaeth hwn yn y gorffennol ond erbyn hyn mae boddhad y cyhoedd llawer uwch a bod niferoedd y cwynion sydd yn dod i sylw'r Adran wedi lleihau yn sylweddol. Ymhelaethwyd bod technoleg newydd sydd wedi cael eu rhoi ar y loriau bellach yn gallu dod yn fuddiol ar gyfer ymateb i gwynion, megis camerâu sydd yn dangos cyflwr y strydoedd a chyfarpar ailgylchu yn dilyn casgliadau gan staff y gwasanaeth. Pwysleisiwyd nad oedd yr Adran yn ymwybodol o unrhyw drafferthion ieithyddol o fewn y gwasanaeth gan egluro bod ymweliadau cyson yn cael ei wneud o amgylch y sir ac nid oes llawer o aelodau staff angen yr offer cyfieithu sydd yn cael ei gynnig fel rhan o'r ymweliadau hynny. Ymhelaethwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i ennyn hyder aelodau staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy aml ac i sicrhau bod aelodau staff yn parhau i weithio o fewn y gwasanaeth fel rhan o'u llwybr gyrfaol.

Mewn ymateb i ymholiad ar barodrwydd perchnogion tai i newid enw eu heiddo i enw Cymraeg, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran bod perchnogion tai yn awyddus i gael enw Cymraeg yn y mwyafrif o'r achosion. Eglurwyd bod y broses o annog perchnogion i newid enwau tai yn un syml ble mae swyddogion yn cynnal trafodaethau er mwyn egluro arwyddocâd yr enwau Cymraeg ac unrhyw gyswllt hanesyddol sydd iddo. Nodwyd bod y perchnogion yn dueddol o hoffi'r enwau Cymraeg wedi iddynt ddeall ei ystyr ac yn dewis ei ddefnyddio. Pwysleisiwyd nad oes gan yr Adran y pŵer i orfodi enwau Cymraeg ar dai ond bod yr anogaeth hon yn ddigonol ar hyn o bryd.

Mewn ymateb i ymholiad os yw'r Adran yn trefnu bod offer cyfieithu ar y pryd o flaen llaw wrth gynnal hyfforddiant ar ddiogelwch ffyrdd, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran bod hyfforddiant ar gyfer plant yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, eglurwyd bod gwaith yn cael ei wneud o flaen llaw wrth drefnu hyfforddiant ar gyfer oedolion ar bob achlysur, er mwyn sicrhau bod offer cyfieithu ar y pryd ar gael i unrhyw un sydd yn dymuno mynychu ond ddim yn deall Cymraeg.

Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y drafodaeth.

6. ADRODDIAD YR ADRAN GYLLID AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023-2033

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau a Phennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

.Atgoffwyd bod yr Adran yn gweithredu Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd 2023/2028 drwy gwmpasu 29 prosiect er mwyn bod yn 'Gyngor Digidol'. Tynnwyd sylw penodol at System Rheoli'r Sefydliad, sydd yn cynorthwyo'r systemau cyflogau ac adnodau dynol, sydd bellach wedi cyrraedd y drefn caffael. Ymfalchiwyd bod yr Adran wedi mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau mesurau ieithyddol wrth gynnal y drefn caffael ar gyfer y system hon. Eglurwyd bod 26 o gwestiynau o fewn y broses yn ymwneud â'r iaith Gymraeg sydd yn sylweddol uwch na threfniadau caffael safonol Gwynedd a chenedlaethol.

Amlygwyd bod deallusrwydd artiffisial yn ddatblygiad technolegol mawr ar hyn o bryd. Eglurwyd bod peilot yn cael ei gynnal ar hyn o bryd er mwyn asesu cryfder a chywirdeb meddalwedd 'Copilot' gan Microsoft, sef adnodd deallusrwydd artiffisial. Tynnwyd sylw nad oedd modd gwneud hynny yn y gorffennol gan nad oedd ar gael yn y Gymraeg.

Diweddarwyd bod systemau ffôn y Cyngor bellach wedi cael eu diweddarau. Esboniwyd bod systemau ffôn bellach wedi ei osod ar gyfrifiaduron aelodau staff a bod y meddalwedd sydd yn caniatáu hynny wedi cael ei osod yn ddiodyn yn y Gymraeg ar holl gyfrifiaduron corfforaethol y Cyngor yn ogystal â holl gyfrifiaduron yr ysgolion yng Ngwynedd. Mynegwyd balchder bod y system hon yn arloesol a bod y Cyngor wedi gallu gwerthu'r meddalwedd hwn ar gyfer defnydd allanol.

Adroddwyd bod Archwilio Cymru yn archwilio cyfrifon Cyngor Gwynedd, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Harbyrau Gwynedd, Pensiynau a GwE, gyda chydweithrediad yr Adran gyllid sydd wedi datblygu a gweinyddu'r cyfrifon hynny. Mynegwyd balchder bod cyfarfodydd gyda swyddogion Archwilio Cymru yn parhau i gael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Atgoffwyd bod heriau wedi codi wrth geisio cynnal trafodaethau gyda hwy yn y Gymraeg yn y gorffennol ond mynegwyd balchder bod y trafferthion hynny wedi arwain at ddatblygiad cynlluniau hyfforddi o fewn y sefydliad er mwyn sicrhau bod mwy o siaradwyr Cymraeg ar gael i gynnal archwiliadau.

Tynnwyd sylw at gynllun Hyfforddeion a Phrentisiaethau'r Cyngor gan gadarnhau bod yr adran wedi manteisio ar y cynllun hwn eleni drwy benodi dau hyfforddai proffesiynol yn ogystal â phedwar prentis newydd. Manylwyd bod yr unigolion hyn yn gweithio ym meysydd pensiynau, trethi a budd-dal ac yn ffynhonnell bwysig o recriwtio er mwyn diwallu anghenion yr adran wrth gynnig llwybr gyrfaol cryf. Ymfalchiwyd bod Tomos Pritchard, sydd yn brentis yn y gwasanaeth cyfrifeg, wedi derbyn gwahoddiad i gynrychioli'r cyngor

ar banel yng nghynhadledd Comisiynydd y Gymraeg yng Nghaerdydd a fydd yn trafod y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Ymfalchiwyd bod y cyfle hwn wedi dod i law i rannu ei brofiadau gyda phrentisiaid eraill a'r pwysigrwydd o siarad Cymraeg yn y gweithle.

Datganwyd bod y Gwasanaeth Pensiwn wedi cyflwyno system hunanwasanaeth newydd i'r gronfa pensiwn yn Ebrill 2024. Nodwyd mai Cronfa Pensiwn Gwynedd oedd y gronfa gyntaf yng Nghymru i uwchraddio i'r safle newydd hwn. Yn anffodus, golyga hyn nad oedd fersiwn Cymraeg ohono ar gael bryd hynny, serch hynny, mae'r gwasanaeth wedi bod yn cydweithio'n sylweddol gyda'r darparwyr er mwyn sicrhau dyfodiad fersiwn Gymraeg o'r safle. Cyfeiriwyd at ddatblygiad arloesol fel rhan o'r system hunanwasanaeth hwn, sef rhithffurf (avatar) sydd yn manylu ar ddatganiadau pensiwn blynyddol yr unigolyn. Cadarnhawyd bod rhithffurf Cymraeg wedi cael ei ddatblygu, sydd yn rhannu gwybodaeth yn syml ac yn eglur ar gyfer defnyddwyr. Rhannwyd clip fideo o'r rhithffurf yn egluro rhan o ddatganiadau blynyddol yn ystod y cyfarfod er mwyn i'r Aelodau weld y dechnoleg newydd hwn ar waith.

Mynegwyd balchder bod yr Adran yn hyrwyddo'r Gymraeg yn genedlaethol wrth i Gronfeydd Pensiwn eraill uwchraddio i'r system hunanwasanaeth. Cadarnhawyd bod Cronfeydd Pensiwn Powys, Torfaen, Abertawe a Rhondda Cynon Taf yn defnyddio'r safle gan nodi y disgwylir i fwy o Gronfeydd uwchraddio dros y misoedd nesaf. Eglurwyd bod ymdrech parhaus yn cael ei wneud i gyflwyno eitemau ychwanegol i'r safle hunanwasanaeth yn ogystal â gwaith technolegol i wella sut mae'r rhithffurf yn ynganu termau Cymraeg. Ychwanegwyd bod y Gronfa Pensiwn wedi derbyn adborth cadarnhaol yn dilyn llwyddiant eu stondin yn Eisteddfod Genedlaethol 2023 ym Moduan, a bod adborth cadarnhaol pellach wedi cael ei dderbyn wrth i'r Gronfa rannu stondin gyda Chronfa Pensiwn Clwyd yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam eleni. Tynnwyd sylw bod y mwyafrif o bobl yn ddi-Gymraeg yng Nghronfa Pensiwn Clwyd gan obeithio bydd y cydweithio hyn yn arwain mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y Gronfa honno. Hefyd, adroddwyd bod swyddogion y Gwasanaeth Pensiwn wedi darparu geiriadur o dermau Cymraeg i'r Gymdeithas Llywodraeth Leol ac Arolygwyr Trethi ei Mawrhydi er mwyn sicrhau bod defnydd o'r termau hynny yn cael eu defnyddio.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Mewn ymateb i ymholiad am argraffiadau o'r peilot sydd ar waith o Microsoft Copilot ar systemau Technoleg Gwybodaeth y Cyngor, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth nad oes canlyniadau llawn i'w gweld hyd yma. Fodd bynnag, eglurwyd bod treial o'r meddalwedd wedi cael ei gynnal yn y gorffennol a bod y trawsgrifiad o gyfarfodydd rhithiol a ddatblygwyd yn y Gymraeg drwy'r system bryd hynny yn wael iawn. Er hyn, cadarnhawyd bod canlyniadau cychwynnol y peilot yn awgrymu bod y meddalwedd wedi datblygu llawer yn ddiweddar a bod y trawsgrifiadau Cymraeg sydd yn cael ei ddatblygu o gyfarfodydd rhithiol o fewn y meddalwedd yn llawer mwy cywir.

Holiwyd os yw'r Cyngor yn rhagweithiol wrth werthu meddalwedd sydd yn cael ei ddefnyddio gan sefydliadau a Chynghorau eraill, ac os oes incwm i'r Cyngor o werthu'r cynnyrch hyn. Eglurwyd bod gwaith hyrwyddo penodol yn cael ei wneud ar feddalwedd addysgiadol a gafwyd ei ddatblygu gan Cynnal; cyn i'r gwasanaeth hwnnw gael ei drosglwyddo i'r Adran Gyllid. Cadarnhawyd bod y rhain, megis rhaglen 'CDU ar lein' wedi cael ei hyrwyddo a'i werthu i siroedd eraill. Serch hyn, tynnwyd sylw bod hyrwyddo meddalwedd eraill megis system i dracio cerbydau'r fflyd, ddim wedi dwyn ffrwyth gan nad oedd llawer o ddiddordeb eraill gan Gynghorau eraill i'w prynu. Fodd bynnag, nodwyd bod mwy o ddiddordeb yn y math hwn o feddalwedd erbyn hyn. Tynnwyd sylw bod mwy o ddiddordeb mewn meddalwedd os yw'n cael ei genhadu gan gynghorau eraill yn hytrach na drwy waith hyrwyddo Cyngor Gwynedd.

Mewn ymateb i ymholiad os oes unrhyw wrthdaro o fewn systemau wrth i feddalwedd deallusrwydd artiffisial gael ei integreiddio i systemau presennol y Cyngor, cadarnhaodd bod datblygiad deallusrwydd artiffisial wedi derbyn sylw penodol o fewn Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd. Eglurwyd bod cyllideb dros dro wedi cael ei adnabod er mwyn penodi aelod o staff i arwain ar y maes hwn a sicrhau ei fod yn cael ei wreiddio yn gywir a diogel o fewn systemau'r Cyngor.

Diolchwyd am yr adroddiad, gan longyfarch yr adran ar eu gwaith arloesol.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y drafodaeth.

7. ADRODDIAD YR ADRAN PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023-2033

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth yr Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC a'r Rheolwr Datblygu Busnes. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Nodwyd bod yr adran yn arwain ar dri phrosiect yng Nghynllun y Cyngor ar hyn o bryd, sef; Cymunedau Glân a Thaclus, Gweithredu ar risgiau llifogydd ac Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y Sir.

Adroddwyd bod 11 o feinciau clyfar wedi cael eu gosod yng Ngwynedd eleni. Eglurwyd bod y meinciau hyn yn gallu adrodd hanes lleol cyfagos drwy gydweithio gydag unigolion adnabyddus megis Casi Wyn, Rhys Iorwerth, Guto Dafydd, Gwyneth Glyn, Manon Steffan Ros a Cedron Sion. Mynegwyd balchder bod y prosiect hwn yn arloesol gan ei fod yn ddull newydd o rannu hanes lleol drwy gyfrwng y Gymraeg. Tynnwyd sylw bod y meinciau wedi cael eu gosod ym Mangor, Caernarfon, Pwllheli, Cricieth, Tywyn a Phorthmadog.

Atgoffwyd bod Ymgynghoriaeth Gwynedd yn cael ei weinyddu fel endid masnachol, gan gadarnhau bod y Cynllun Busnes newydd wedi cael ei lansio ym mis Ebrill eleni, ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Sicrhwyd bod y cynllun busnes hwn yn cael ei ddatblygu a'i raeadru drwy'r iaith Gymraeg. Ymhelaethwyd bod gwella sgiliau iaith staff yn nod yn ystod y cyfnod hwn drwy ddarparu addysg a hyfforddiant Cymraeg. Rhannwyd fideo recriwtio Ymgynghoriaeth Gwynedd a fydd yn cael ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol yn fuan.

Cadarnhawyd bod yr adran yn cydweithio gyda busnesau lleol ac isgontractwyr yn rheolaidd gan rannu enghraifft bod Tîm Categori Amgylchedd wedi cynnal digwyddiad yn Nhŷ Gwyrddfai ym Mhenygroes gyda chydweithrediad adrannau eraill y Cyngor, Cymdeithas Tai Adra Cyf yn ogystal â chwmnïau eraill. Yn debyg, nodwyd bod yr Adran yn mynychu ffeiriau swyddi a digwyddiadau er mwyn ymgysylltu a phobl Gwynedd, drwy gynnal sgwrsiau wyneb i wyneb ar gyfleon y cwmni a'r buddion o weithio i sefydliad gyda gweithle Cymraeg.

Diolchwyd i'r Adran Gyllid a'r gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth am ddatblygu system i reoli Ffilyd y Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg gan ei fod yn cynorthwyo'r broses o archebu deunyddiau, cofnodi gwaith, rheoli gyrwyr, cynnal rhaglen cynnal a chadw a chadw manylion am gerbydau. Nodwyd bod y rhaglen hon yn Gymraeg ac wedi cael ei werthu ymlaen i awdurdodau eraill fel y nodwyd yn eitem flaenorol y cyfarfod hwn.

Diweddarwyd bod yr Adran yn y broses o ddiweddarau cerbydau'r ffilyd i fod yn rhai trydan, gan nodi bod 88 cerbyd trydan yn rhan o'r ffilyd ar hyn o bryd. Cydnabuwyd bod defnyddio cerbydau trydan yn parhau i fod yn brofiad newydd i aelodau staff y Cyngor ac felly mae

fideo Cymraeg 'Sut i ddefnyddio cerbydau trydan' wedi cael ei ddatblygu gan yr Adran i gynorthwyo aelodau staff wrth ddefnyddio'r cerbyd a'i wefru.

Manylwyd bod yr Adran yn cyflogi 433 o aelodau staff a bod 265 (61.2%) wedi cyflawni eu hunanasesiad iaith. Pwysleisiwyd bod y 149 aelod arall o staff yn weithwyr rheng flaen ac mae'r rheolwyr wedi cwblhau eu hunanasesiad ar eu rhan. Cadarnhawyd mai dim ond 19 o aelodau staff sydd heb gyflawni unrhyw fath o asesiad iaith ar hyn o bryd. Mynegwyd balchder bod 96.9% o aelodau staff yr Adran yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd, gan nodi bod gwaith yn cael ei wneud er mwyn cynnig hyfforddiant Cymraeg i'r 13 aelod staff sydd ddim yn cyrraedd y dynodiad iaith berthnasol ar gyfer eu swydd.

Cydnabuwyd bod rhai systemau a ddefnyddir gan yr Adran yn rhai uniaith Saesneg, gan sicrhau bod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau eu bod yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg i'r dyfodol er budd yr aelodau staff a'r cyhoedd.

Mynegwyd balchder bod gan wasanaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd achrediad Buddsoddwyr Mewn Pobl gan ymfalchïo bod modd cynnal yr arolwg er mwyn derbyn yr achrediad drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Ystyriwyd bod y nifer o aelodau staff sydd wedi cyflawni'r hunanasesiad iaith yn isel iawn, gan ofyn i'r swyddogion am wybodaeth bellach am y mater hwn. Mewn ymateb i'r ystyriaethau, eglurodd Pennaeth yr Adran bod hyn yn deillio o'r ffaith bod nifer o aelodau staff yr adran yn weithwyr rheng flaen ac nid oes ganddynt gyfrifiadur y Cyngor yn rhinwedd y swydd gan olygu nad oes ganddynt fynediad i'r asesiad. Ymhelaethodd y Rheolwr Datblygu Busnes bod gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod Rheolwr yr aelodau staff hynny sydd heb fynediad i'r asesiad yn ei gyflawni gyda hwy ar eu rhan. Cadarnhaodd Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg bod sylwadau a gyflwynir gan Reolwr yn ystod asesuadau iaith yn gallu bod yn adlewyrchiad mwy teg o wir sefyllfa ieithyddol y staff gan fod unigolion yn dueddol o fod yn ddihyder yn eu sgiliau ieithyddol wrth hunanasesu.

Clodforwyd yr Adran am hyrwyddo eu gwaith mewn amrywiol ffyrdd gan ystyried os yw'r ymgyrchoedd recriwtio hyn wedi bod yn llwyddiannus. Mewn ymateb, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran bod nifer o swyddi cyffrous wedi cael eu hysbysebu yn ddiweddar. Nodwyd mai prif her yr Adran yw denu pobl yn ôl i Wynedd i weithio oherwydd bod rhagdybiaeth nad oes swyddi arbenigol ar gael yma. Mynegwyd balchder bod yr Adran wedi llwyddo i gynnig swyddi arbenigol a denu pobl yn ôl i'r ardal a chodi proffil yr Adran ac Ymgynghoriaeth Gwynedd fel cyflogwr lleol. Gobeithiwyd bod y fideo recriwtio a fydd yn cael ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol yn fuan yn hwb ychwanegol i'r nod hwn i'r dyfodol, gan gadarnhau bod yr Adran yn cynnig swyddi a phrentisiaethau. Yn debyg, cadarnhaodd y Rheolwr Datblygu Busnes bod yr Adran wedi hyrwyddo gwaith yr Adran i dros 40 o fyfyrwyr gyda chymorth MSbarc yn ddiwedd a bod myfyrwyr profiad gwaith yn cael eu derbyn yn rheolaidd i ddysgu mwy am yr hyn mae'r Adran yn ei gyflawni. Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y drafodaeth.

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:00yb a gorffennodd am 11:25yb.

Adroddiad adran Addysg ar weithrediad y Polisi Iaith a chyfraniad tuag at wireddu Strategaeth Iaith Gymraeg 2023 - 2033

Dyddiad	Chwefror 9fed, 2026
Adran	Addysg
Awdur	Siwan Llwyd Roberts

1. Pa bolisiau a chynlluniau sydd mewn lle o fewn eich adran er mwyn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith? Nodwch y maes blaenoriaeth (blynnyddoedd cynnar, dysgu, gwaith a gwasanaeth, y gymuned neu ymchwil a thechnoleg)

Polisiau a chynlluniau strategol perthnasol

Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg Cyngor sir Gwynedd:

Mae CSGA Gwynedd yn nodi pwrpas, amcanion a gweithredu'r Cyngor ac yn adlewyrchu gweledigaeth y Cyngor i greu cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog sydd yn rhoi anghenion holl ddysgwyr y sir yn ganolog. Mae'r cynllun yn nodi cyfeiriad clir ar gyfer sicrhau bod dysgwyr Gwynedd yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol.

Polisi Iaith Addysg Gwynedd:

Nod Polisi Iaith Addysg Gwynedd yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Disgwylir i'r ddarpariaeth fod yn addas i alluogi pob disgybl i ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Disgwylir i ysgolion Gwynedd feithrin sgiliau'r disgyblion hynny sy'n Gymry Cymraeg, a chyflwyno'r Gymraeg i'r rhai hynny sy'n newydd ddyfodiaid i'r sir. Disgwylir hefyd i holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r polisi yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal a'u darpariaeth gwricwlaidd ac allgyrsiol. Mae Polisi Iaith Addysg Diwygiedig ar ffurf drafft wedi ei gyflwyno gerbron y Cabinet fis Rhagfyr 2025 ac mae ymgysylltiad yn digwydd yn ystod Ionawr a Chwefror 2026 cyn i Bolisi Drafft gael ei gyflwyno i Gyrff Llywodraethol cyn Medi 2026.

Strategaeth Genedlaethol Cymraeg 2050- Miliwn o Siaradwyr Cymraeg:

Mae Llywodraeth Cymru am weld nifer y rhai sy'n siarad Cymraeg yn codi i filiwn erbyn y flwyddyn 2050.

Fframwaith Genedlaethol y Siarter Iaith:

Mae rhaglen y Siarter Iaith yn cyfrannu at Cymraeg 2050 drwy anelu i ysbrydoli plant a phobl ifanc i ddefnyddio a mwynhau'r Gymraeg ymhob agwedd ar eu bywydau. Mae'r Siarter Iaith yn rhan o gyfres o raglenni Llywodraeth Cymru sy'n anelu at gynyddu defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

Cwricwlwm i Gymru:

Mae rhaglen y Siarter Iaith yn cefnogi Cwricwlwm i Gymru gydag egwyddorion y rhaglen yn cefnogi'r pedwar diben er mwyn creu dysgwyr uchelgeisiol, cyfranwyr mentrus, dinasyddion egwyddorol ac unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o'u cymdeithas. Mae'r Siarter yn rhan integredig o Gwricwlwm i Gymru, yn pontio rhwng elfennau o'r cwricwlwm gan ychwanegu at brofiadau addysgiadol ynghyd â chyfoethogi profiadau allgyrsiol ac amser chwarae anffurfiol.

Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 sydd bellach wedi ei osod ar y Llyfr Statud yw'r fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer datblygu a chryfhau addysg Gymraeg yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau statudol ar Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion i gynllunio a chynyddu'r ddarpariaeth o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda'r nod o alluogi pob disgybl i wneud cynnydd ystyrlon yn y Gymraeg a dod yn siaradwyr hyderus erbyn diwedd eu haddysg statudol. Bydd y dyletswyddau newydd

ar awdurdodau lleol ac ysgolion yn dod i rym fesul cam yn ystod y blynyddoedd nesaf, a hynny er mwyn sicrhau pontio trefnus a chynaliadwy i'r dyfodol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau. Wedi ei gynnwys yn y ddeddf mae saith Nod Llesiant, pwrpas y nodau hyn yw sicrhau bod pawb yn gweithio tuag at gyflawni'r un nodau. Un o'r nodau hynny yw gweithio tuag at Gymru sydd â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Prosiectau yng Nghynllun y Cyngor:

Gwynedd Yfory - Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir

Mae prosiect ar y cyd rhwng Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd a'r Urdd wedi'i anelu at gynyddu cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys cyflogi Swyddog Ieuenctid ar y cyd, sy'n trefnu gweithgareddau trwy'r Gymraeg yn ystod ac ar ôl oriau ysgol a'r nod yw annog pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol ac anffurfiol, gan helpu i gryfhau'r defnydd o'r iaith tu allan i'r ystafell ddosbarth. Yn ogystal, mae Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd yn parhau i gynnig amrywiaeth o gyfleoedd i bobl ifanc 11-25 oed ddatblygu sgiliau iaith, personol, cymdeithasol ac addysgol mewn llefydd nad yw'r defnydd o Gymraeg mor eang. Mae 5 Aelwyd Gymunedol wedi eu datblygu yn Y Felinheli, Bangor, Caernarfon, Ardudwy a'r Bala lle bo sesiynau amrywiol yn cael eu cynnal y tu allan i amserlen yr ysgol mewn 6 o ysgolion uwchradd y sir.

Eleni mae 3754 o sesiynau wedi eu trefnu trwy gyfrwng y Gymraeg gan y Gwasanaeth Ieuenctid gan gynnig ystod eang o weithgareddau. Cynigir clybiau ieuenctid cymunedol, alldeithiau, triapiau achlysurol, gweithdai mewn ysgolion, gwaith mewn grwpiau bach, gwaith un i un a darpariaeth sydd wedi ei gomisiynu i bartneriaid.

Casglwyd y data canlynol:

- 21305 o gyfranogiadau.
- 1228 o achrediadau wedi eu cwblhau
- 97% yn nodi eu bod wedi mwynhau y sesiynau
- 96% yn nodi eu bod yn teimlo bod eu llesiant wedi gwella
- 98% wedi dysgu sgil/ profiad newydd.
- 96% am barhau i fynychu.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn derbyn £20,000 yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â chynyddu darpariaeth iaith Gymraeg i bobl ifanc. Mae pob gweithgaredd sy'n cael ei gynnig yng Ngwynedd yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae Gweithiwr Ieuenctid wedi ei leoli ym mhob un ysgol uwchradd ac arbennig ac yn gweithio drwy bontio i'r gymuned. Mae prosiectau cymunedol yn cael eu cynnal ar draws Gwynedd.

Gwynedd Gymraeg: Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant

Ers sefydlu'r Gyfundrefn Addysg Drochi ar ei newydd wedd yn Ionawr 2023, mae chwe lleoliad strategol ar draws Gwynedd yn darparu gwasanaeth i siaradwyr newydd gaffael y Gymraeg. Mae gwaith wedi digwydd i wireddu gweledigaeth Cabinet y Cyngor, gan gynnwys gwariant £1.1m o arian cyfalaf Llywodraeth Cymru i sefydlu safleoedd addysg drochi newydd ar gyfer disgyblion blynyddoedd 5 – 9 ym Mangor a Thywyn ynghyd â gwella'r adnoddau ar safle addysg drochi Eifionydd. Yn dilyn gwariant pellach o £1.1m o arian cyfalaf Llywodraeth Cymru agorwyd tair o ganolfannau cynradd ar gyfer disgyblion blynyddoedd 2 – 4. Agorwyd canolfan newydd ar safle Ysgol Cymerau, Pwllheli fis Ebrill 2025 a chanolfannau pwrpasol newydd ar safleoedd Ysgolion Maesincla a Bro Idris Dolgellau ym mis Medi 2025.

Mae'r canolfannau wedi eu cynllunio'n fwriadus i ddarparu addysg drochi flaengar a chyfoes mewn ardaloedd strategol o'r sir sydd o arwyddocâd ieithyddol. Maent o fewn cyrraedd rhesymol i gyfleusterau megis Llyfrgelloedd Gwynedd, Canolfannau Byw'n Iach, siopau, clybiau a mentrau cymdeithasol.

Mae'r ddarpariaeth hon yn sicrhau'r cyfle gorau i'n holl ddysgwyr ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus sy'n gallu defnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd.

Prosiectau a chynlluniau eraill

Diwygio Polisi Iaith Addysg Gwynedd:

Yn ystod 2024 - 2025 o dan arweiniad yr Ymgynghorydd Iaith, Meirion Prys Jones, cynhaliodd Cyngor Gwynedd gyfres o sesiynau ymgysylltu cynhwysfawr gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys penaethiaid ysgolion Gwynedd, disgyblion ac aelodau Fforymau Iaith, cynrychiolwyr mudiadau iaith a chynrychiolwyr Comisiynydd y Gymraeg - er mwyn llywio datblygiad Polisi Iaith Addysg Gwynedd. Ar Ragfyr 16eg 2025, gwahoddwyd y Cabinet i gymeradwyo drafft o Bolisi Iaith Addysg Gwynedd er mwyn ei gyflwyno fel polisi enghreifftiol i bwrpas ymgysylltu cyhoeddus. Mae'r cyfnod ymgysylltu wedi agor yn Ionawr 2026, a bydd yn cau ar Chwefror 25ain, 2026. Wedi hynny, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet er mwyn adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r ymgysylltiad. Bydd yn ofynnol wedyn i'r Cabinet ystyried canlyniadau'r ymgysylltiad, a phenderfynu a ddylid mabwysiadu'r Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol neu beidio.

Gwerthuso'r Gyfundrefn Addysg Drochi:

Yn dilyn gweithredu'r Gyfundrefn Addysg Drochi ar ei newydd wedd ers Ionawr 2023, comisiynwyd Prifysgol Bangor i gynnal Astudiaeth Effaith i werthuso ei heffeithiolrwydd. Nod yr astudiaeth oedd asesu a yw'r ddarpariaeth yn llwyddo i roi sylfaen gadarn i ddisgyblion Gwynedd ddysgu'r Gymraeg. Casglwyd barn rhanddeiliaid drwy gyfarfodydd, arsylwadau yn yr unedau trochi ac yn yr ysgolion, ac ystod y cyfnodau pontio. Cyflwynwyd adroddiad terfynol y gwerthusiad i Bwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar Hydref 16eg 2025, gan ddarparu tystiolaeth ymchwil a gwneud argymhellion ar gyfer datblygiadau pellach. Mae'r Gyfundrefn yn gweithredu nifer o'r argymhellion o ran cyfarch yr angen am ddarpariaeth i ddysgwyr hŷn, gwella'r cyfathrebu gyda'r ysgolion a sicrhau bod staff trochi yn gweithio'n fwy effeithiol yn yr ysgolion ar ddyddiau Gwener.

Strategaeth Ysgolion 2026–2036

Cyflwynwyd Strategaeth ddrafft i Bwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 11eg Rhagfyr 2025. Wedi cyfnod o ymgysylltu, bydd Strategaeth Ysgolion Gwynedd yn cael ystyriaeth gan y Cabinet fis Chwefror 2026. Pwrpas y Strategaeth yw gosod gweledigaeth ac uchelgais y sir ar gyfer system addysg gynhwysol, gynaliadwy ac o'r safon uchaf, sy'n galluogi pob dysgwr i wireddu ei botensial llawn. Mae'r Strategaeth yn cadarnhau ymrwymiad Gwynedd i sicrhau mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog drwy gydol taith addysgol pob plentyn, gan gyfrannu'n uniongyrchol at weledigaeth genedlaethol *Cymraeg 2050*.

2. Beth arall sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg?

Gweithredu argymhellion yn dilyn y broses o ymgysylltu cyhoeddus ynglŷn â'r **Polisi Iaith**. Cyflwyno drafft o Bolisi Iaith Addysg Enghreifftiol Gwynedd i bob corff Llywodraethol cyn Medi 2026.

Yn dilyn ymgysylltu, ymateb i sylwadau a chyflwyno'r **Strategaeth Ysgolion** i'w hystyried gan Gabinet Cyngor Gwynedd, Chwefror 2026.

3. Ydy datblygiad technoleg wedi amharu ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? Os yn berthnasol rhowch enghraifft. Sut ydych chi'n sicrhau nad yw datblygiad technoleg yn effeithio ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

O ran ysgolion Gwynedd, y ffocws ar hyn o bryd yw cefnogi ysgolion i ddefnyddio'r plattfform Hwb i'w lawn botensial a monitro effaith hynny ar safonau yn ein hysgolion. Mae'r effaith eisoes i'w weld yn yr ysgolion o ran cynhwysiant digidol. Mae pob dysgwr yn cael mynediad cyfartal at ddyfeisiau digidol sy'n lleihau'r rhaniad digidol a hefyd yn sicrhau bod yr offer eisoes wedi'i ffurfweddu i gefnogi dysgwyr o ran yr iaith Gymraeg e.e. rhyngwyneb defnyddiwr yn y Gymraeg, a chymhwysiad a chyfluniadau i gefnogi'r Gymraeg.

Yn ein canolfannau trochi, mae Aberwla yn blatfform TGCh rhithiol arloesol sy'n efelychu pentref digidol llawn o leoliadau rhyngweithiol, gan alluogi dysgwyr i ymarfer ac atgyfnerthu eu geirfa a'u patrymau iaith Gymraeg drwy chwarae.

Yn ystod arolygiad Estyn fis Mawrth 2025 nodwyd bod cydweithio athrawon ar ddatblygu a gweithredu cynllun Aberwla wedi cefnogi darpariaeth drochi gyfoes sy'n adeiladu'n systematig ar egwyddorion caffael iaith. Trwy weithgareddau cyson, difyr ac adnoddau rhithwir arloesol, caiff disgyblion gyfleoedd pwrpasol a chynhwysol i ddatblygu eu geirfa, patrymau brawddeg a medrau Cymraeg mewn cyd-destunau bywyd go iawn. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar hyder a mwynhad y disgyblion wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cymuned.

Bellach mae'r adnodd yn cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus mewn canolfannau ac unedau trochi ar draws Cymru, gan gynnig darpariaeth drochi gyfoes o ansawdd uchel sy'n cefnogi datblygiad sgiliau siarad, gwrando a darllen. Trwy normaleiddio'r Gymraeg ar blatfform digidol apelgar, mae Aberwla yn meithrin agweddau cadarnhaol at y Gymraeg fel iaith bob dydd. Mae'r platfform bellach wedi'i lansio'n genedlaethol ar Hwb drwy gefnogaeth Adnodd.

4. Sut ydych chi'n cadw cofnod o'r bobl sy'n defnyddio eich gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg? Allwch chi rannu data perthnasol?

Unrhyw ddata arall perthnasol

e.e. Blynyddoedd cynnar 1. Data cyrhaeddiad y CSGA o ran nifer y lleoliadau gofal plant, a nifer plant sydd yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. 2. Nifer cylchoedd Ti a Fi, grwpiau Rhiant a Phlentyn sydd yn cael eu cefnogi/cynnal. 3. Nifer y gweithgareddau sydd yn cael eu targedu yn benodol at deuluoedd ifanc/rhieni a babanod gan wasanaethau'r Cyngor. 4. Nifer y gweithgareddau teuluol sydd yn cael eu trefnu gan y fenter iaith. 5. Nifer ymgyrchoedd rhannu adnoddau a gwybodaeth. Dysgu 1. Ystadegau monitro CSGA 2. Nifer staff y Cyngor sydd yn derbyn hyfforddiant i wella sgiliau 3. Nifer prentisiaethau sydd yn cael eu cynnig gan y Cyngor 4. Nifer cyfleoedd hyfforddi/achrediau sydd yn cael eu cynnig gan y gwasanaeth ieuencid. Gwaith a gwasanaeth 1. Nifer busnesau sydd yn derbyn cymorth ariannol drwy gynllun Arfor 2. Nifer staff sydd yn derbyn cefnogaeth i ddysgu Cymraeg neu ddatblygu sgiliau 3. Nifer staff sydd yn cymryd rhan mewn cynlluniau cyfeillio/pencampwyr Y gymuned 1. Nifer gweithgareddau wedi eu cynnal gan wasanaethau'r Cyngor a'r fenter iaith ar gyfer gwahanol grwpiau 2. Nifer mentrau cymunedol sydd yn cael eu cefnogi drwy gynlluniau Adfywio ac Economi Ymchwil a thechnoleg 1. Nifer prosiectau ymchwil sydd wedi eu cynnal gan y Cyngor, neu eu comisiynu gan y Cyngor Unrhyw ddata arall perthnasol

Blynyddoedd Cynnar

Mae targed penodol o fewn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022-27 ar gyfer 'Sicrhau darpariaeth iaith Gymraeg/Dwyieithog i holl blant y sir'.

Mae Adroddiad Cynnydd 2025 yn nodi, yn unol â'r wybodaeth mae DEWIS yn ei gadw o ran iaith ein darpariaeth, bod 36% o'n darpariaeth yn uniaith Gymraeg gyda 56% yn darparu'n ddwyieithog a 7% yn darparu yn Saesneg gydag elfennau dwyieithog. (Mae'r wybodaeth yn cyfri'r holl wasanaeth sydd wedi ei nodi ar Dewis oherwydd gall un ddarpariaeth fod yn cynnig mwy nag un gwasanaeth e.e. cylch meithrin a chlwb ar ôl ysgol).

Gweler isod ein sefyllfa bresennol mewn perthynas â chanran y plant meithrin/tair oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Nifer a chanran plant 3 oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg (data CYBLD):

Blwyddyn	Nifer	Canran
2024-25	466	100%

Data Cylchoedd Meithrin (wedi ei ddarparu gan Mudiad Meithrin):

Blwyddyn	Nifer y lleoliadau	Nifer y plant	Nifer yn trosglwyddo i'r ysgol	Nifer yn trosglwyddo i ysgol Gymraeg	Canran yn trosglwyddo i ysgol Gymraeg
2023-24	63	1957	853	852	99.88%

Data Dechrau'n Deg Cyfrwng Cymraeg:

Blwyddyn	Nifer y Lleoliadau	Nifer y plant
2024-25	34	319

Darpariaethau Cyfrwng Cymraeg eraill:

Natur y Ddarpariaeth	Nifer y Darpariaethau
Meithrinfeydd	10 Cymraeg 9 Dwyieithog
Clybiau ar ôl Ysgol	7 Cymraeg 21 Dwyieithog
Clybiau Gwyliau	4 Cymraeg 15 Dwyieithog
Gwarchodwyr	10 Cymraeg 28 Dwyieithog 7 Saesneg gyda elfennau o Gymraeg

Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1

Mae 98.56% o ddysgwyr Dosbarth Derbyn y sir a 98.47% o ddysgwyr Blwyddyn 1 yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cefnogaeth ymarferol effeithiol mewn lle i gynyddu'r ddarpariaeth mewn un ysgol gynradd drosiannol er mwyn gwireddu'r targed o 100% o fewn oes Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg

Trochi

Defnyddir cyfran o grant trochi hwyr i gyflogi athrawes brofiadol i gydweithio gyda staff a dysgwyr dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 mewn ysgol drosiannol ym Mangor i fodelu dulliau trochi llwyddiannus ac mae'r athrawes hefyd yn cefnogi mewn dwy ysgol arall ym Mangor i wreiddio dulliau trochi cynnar yn y Dosbarth Derbyn. Mae'n cydweithio gyda staff y Cyfnod Sylfaen i fapio datblygiad ieithyddol Cymraeg y dysgwyr ar hyd y continwmm iaith a pharatoi cyfleoedd rheolaidd i atgyfnerthu'r Gymraeg o fewn egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn ardaloedd y dosbarth. Mae'n annog y dysgwyr i gymhathu eu medrau iaith mewn cyd-destun trawsgwricwlaidd e.e. chwarae rôl, caffi, siop. Gwneir defnydd cynyddol o Dechnoleg Gwybodaeth mewn ymgais i normaleiddio'r Gymraeg mewn ysgol lle mae dros 71% o'r disgyblion wedi symud i Gymru o wledydd tramor.

Yn yr ysgol drosiannol, dathlir dyddiau pwysig fel Dydd Gŵyl Dewi, Santes Dwynwen, ac unwaith eto eleni cynhaliwyd eisteddfod ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg. Hefyd cyflwynodd pob dosbarth ddwy gân Gymraeg yng nghyngerdd Nadolig yr ysgol yng Nghanolfan Pontio. Mae ymdrech hefyd i ddatblygu egwyddorion Cymraeg Campus trwy'r ysgol gyda'r bwriad o adeiladu ar y sylfaen hon i weithredu Fframwaith Y Siarter iaith yn y flwyddyn addysgol nesaf.

Nodwyd yn adroddiad Estyn o'r Gyfundrefn Drochi yng Ngwynedd bod : "yr athrawes beripatetig y Gymraeg, sy'n addysgu'r disgyblion ieuengaf mewn tair ysgol mewn ardal benodol o'r sir, yn cefnogi'r disgyblion yn

fuddiol wrth gyflwyno'r iaith. Darperir ystod o weithgareddau pwrpasol er mwyn annog disgyblion i ddefnyddio geirfa a phatrymau brawddeg syml yn gynyddol hyderus. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at eu hyder wrth iddynt ddysgu a chwarae yn Gymraeg."

Yn ystod y flwyddyn academiaidd 2024-2025 darparwyd cefnogaeth a mynediad i 202 o ddysgwyr blynyddoedd 2-9 ar gwrs trochi dwys 10 wythnos yn yr unedau trochi ar draws y tri rhanbarth o fewn y sir sydd yn gyfartaledd o 67 disgybl bob tymor. Yn ogystal darparwyd cefnogaeth ôl ofal i 198 o ddysgwyr yn ystod y flwyddyn addysgol a hynny mewn 23 ysgol gynradd a 5 uwchradd yn Nhymor yr Hydref, 27 cynradd a 6 uwchradd yn Nhymor y gwanwyn, a 28 cynradd a 7 uwchradd yn nhymor yr haf. Mynychodd 46 o ddysgwyr blynyddoedd 7, 8 a 9 gwrs byr adennill hyder dros 3 wythnos yn yr ysgolion uwchradd sy'n lletya'r unedau trochi Pontio Cynradd/Uwchradd. Blaenoriaethir mynediad i'r cwrs adennill hyder i ddysgwyr sydd wedi eu hasesu fel carfan C1 gan athrawon ysgolion cynradd.

Mae 32% o'r holl ddysgwyr Cynradd, a 21% o'r holl ddysgwyr Uwchradd sydd wedi cael mynediad at addysg drochi hwyr yng Ngwynedd eleni yn ddysgwyr Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig.

Mae 73.57% o'r holl ddysgwyr mewn un ysgol gynradd drosiannol ym Mangor yn ddysgwyr o gefndir Du, Asiaidd neu Leiafrif Ethnig, ac mae holl ddisgyblion Derbyn a Blwyddyn 1 yr ysgol honno yn cael mynediad at athrawes sy'n cyflwyno egwyddorion trochi cynnar. Mae disgyblion yr ysgol honno, fel pob disgybl arall rhwng Blwyddyn 2 a Blwyddyn 9, yn cael mynediad i Ganolfan Drochi er mwyn derbyn darpariaeth trochi hwyr.

Pontio

Yng Ngwynedd mae gennym strwythur staffio cadarn i fonitro dilyniant ieithyddol yn y cynradd a'r uwchradd gan gynnwys pontio. Mae Cydlynnydd y Siarter Iaith yn arwain yn y cynradd, y Cydlynnydd Strategaeth Iaith yn gyfrifol am yr uwchradd, ac mae'r Cydlynwyr Iaith Dalgylchol yn gweithredu ymhob clwstwr. Golyga hyn fod modd tracio datblygiad ieithyddol ein dysgwyr ar hyd y continwwm iaith a blaen gynllunio i sicrhau fod darpariaeth briodol yn ei lle fel bod ein dysgwyr yn gwneud cynnydd priodol wrth drosglwyddo o un sector i'r llall.

Cesglir Carfannau Iaith y disgyblion ar ddiwedd blwyddyn 6 i'w trosglwyddo i'r ysgolion uwchradd i sicrhau parhad a dilyniant. Byddwn hefyd yn casglu, coladu a dadansoddi data Gwe Iaith yn y cynradd a'r uwchradd er mwyn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yng nghyd-destun defnydd cymdeithasol dysgwyr o'r Gymraeg a'u hyder a'u harferion wrth ddefnyddio'r Gymraeg o fewn yr ysgol. Dyma'r gwaelodlin ar gyfer cynllunio gweithgarwch y Siarter Iaith.

Yn nalgylchoedd Bangor a Thywyn, rhoddwyd mewnbwn ychwanegol i weithgarwch pontio trwy'r Grant Trochi Hwyr. Cynhaliwyd gweithdai creadigol i ddysgwyr blwyddyn 5 a 6 gydag artistiaid yn y Nyth ym Mangor, a hynny i annog y dysgwyr i fod yn greadigol a mynd ati gyda help i greu cynhyrchiad o'u dewis trwy gyfrwng y Gymraeg. Trefnwyd cyfuniad o weithdai yn yr ysgolion cynradd yn ogystal â sesiynau gydag ysgolion eraill o fewn y clwstwr yn adeilad y Nyth ym Mangor.

Unwaith eto eleni, comisiynwyd Sioe gan Hywel Pitts a Gareth yr Orangutang ar gyfer ysgolion dalgylch Dwyfor, Arfon ac Ogwen, oedd yn hyrwyddo'r Gymraeg. Rhoddwyd gwahoddiad i bob disgybl blwyddyn 6 a 7 yn y dalgylchoedd i'w mynychu. Gwerthfawrogir y cyfraniad ariannol gan Fenter Iaith Gwynedd i sicrhau llwyddiant y daith.

Cyd-weithiwyd gyda'r Fenter Iaith i gynnal sesiynau ymwybyddiaeth iaith yn Ysgolion Tregarth, Manod ac Eifion Wyn.

Manteisiwyd ar arbenigedd staff yr Urdd i gydweithio ar brosiectau, yn rhan o gynlluniau Grant y Gymraeg, mewn rhai dalgylchoedd yng Ngwynedd.

Gwelwyd parêd Dydd Gŵyl Dewi yn Nhywyn, gydag ysgolion cynradd ac uwchradd yn rhan o'r bwrlwm.

Cyd-weithiwyd gyda'r Cyngor Llyfrau i gynnal rowndiau sirol yr Ornest Lyfrau. Bu i 7 ysgol yng Ngwynedd gystadlu eleni, ac aeth Ysgol Waunfawr ac Ysgol y Gelli ymlaen i gynrychioli Gwynedd yn y rownd genedlaethol yn Aberystwyth.

Mae llawer iawn o ysgolion yn ymgymryd yn frwdfrydig â dathlu digwyddiadau allweddol yn y calendr Cymreig, megis Diwrnod Shwmae/Su'mae, Dydd Santes Dwynwen, a Dydd Miwsig Cymraeg. Cynhelir gweithgareddau amrywiol ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi ac Wythnos Cymru Cŵl, ac mae ysgolion yn cymryd rhan mewn eisteddfodau ac yn mynychu gwersylloedd yr Urdd. Mae nifer sylweddol o ysgolion yn rhoi sylw amlwg i'r gweithgareddau hyn drwy eu rhannu'n helaeth iawn ar eu cyfryngau cymdeithasol.

Cynhyrchwyd pamffledi a phosteri'n hybu manteision dwyieithrwydd, a rhannwyd y rheiny gyda phob ysgol gynradd ac uwchradd o fewn y sir.

Bu Seren a Sbarc ar ymweliad â nifer o ysgolion cynradd, gan dderbyn croeso cynnes iawn!

Erbyn diwedd y flwyddyn addysgol hon, bydd pob ysgol uwchradd yng Ngwynedd wedi derbyn ymweliad gan y Coleg Cymraeg er mwyn hyrwyddo manteision dwyieithrwydd. Llwyddwyd i sicrhau ymweliad â phob ysgol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Bu'r ymweliadau hyn yn llwyddiannus iawn.

Cynhaliwyd sgysiau gyda dwy Ysgol Arbennig yng Ngwynedd er mwyn trafod sut y gellid addasu meini prawf y Siarter Iaith i fod yn fwy cynhwysol. Drafftwyd diwygiadau i'r canllawiau presennol, ac fe 'u cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i'w trafod. Bu cyfarfod ym mis Gorffennaf 2025 i drafod yr addasiadau a wnaed.

TGAU

Roedd 1267 o ddysgwyr ym Mlwyddyn 11 a 1330 ym Mlwyddyn 10 yn ysgolion uwchradd Gwynedd Hydref 2024.

Dyma'r data cyfredol yn erbyn y tri dangosydd o ran cymwysterau Cymraeg ar ddiwedd y cyfnod oed statudol yn 16 oed – sy'n cynnwys pob disgybl yn y sir:

DANGOSYDD	CANRAN
Canran disgyblion BL.11 sy'n astudio o leiaf 3 phwnc CA4 drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf	73.95%
Canran disgyblion BL.11 sy'n astudio o leiaf 5 phwnc CA4 drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf	73.4%
Canran disgyblion BL.11 sy'n sefyll arholiad TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf	86.82%
Canran disgyblion BL.11 sy'n sefyll arholiad TGAU Cymraeg Ail Iaith	11.84%
Heb gofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg	1.34%

5. Beth yw sgiliau iaith eich staff?

Mae 99.5% o'r athrawon cynradd a 89% o athrawon uwchradd yn hyderus i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar sail data Cyfrifiad Iaith y Gweithlu Addysg rydym yn targedu a chefnogi rhai ysgolion ar draws y sir er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymateb i anghenion ieithyddol eu staff trwy hyrwyddo mynediad at gyfleoedd i ddysgu Cymraeg neu i godi eu hyder yn y Gymraeg, yn ogystal ag ymateb yn llawn i bolisi iaith ysgolion Gwynedd o ran cyfrwng addysgu ac iaith weinyddol yr ysgol. Mae ein dwy ysgol uwchradd drosiannol yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt trwy gefnogaeth Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac mae tiwtoriaid a phrosiectau ar waith yn yr ysgolion hynny yn cefnogi'r staff.

Mae'r Awdurdod ac ysgolion uwchradd y sir wedi bod yn rhan greiddiol o ddatblygu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ar y cyd gyda CYDAG a CBAC ar y cymwysterau newydd. Mae ysgolion y sir yn rhan o fforwm newydd CYDAG y Gogledd sy'n hyrwyddo addysg Gymraeg ar draws Gogledd Cymru.

6. Rhewch enghreifftiau o unrhyw rwystrau, cwynion a chanmoliaeth sy'n gysylltiedig gyda darparu a hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Yn sgil cwblhau Holiadur Sgiliau Iaith y Gweithlu Addysg, mae gwaith wedi'i gyflawni i edrych ar y canfyddiadau, ac ystyried pa hyfforddiant a chefnogaeth ieithyddol sydd ei hangen ar weithlu'n hysgolion. Trefnwyd cyrsiau a hyfforddiant i ymateb i'r anghenion a amlygwyd yn sgil cynnal yr holiadur er mwyn sicrhau bod cyrsiau dysgu Cymraeg priodol ar gael i'r gweithlu addysg ar lefel Sylfaenol, Canolradd, Uwch neu er mwyn gloywi iaith a chodi hyder. Disgwylir i'r gweithlu addysg i gyd ddiweddarau Holiadur Sgiliau Iaith yn flynyddol ar ddechrau'r flwyddyn addysgol er mwyn sicrhau data sydd yn gyfredol, i alluogi cynllunio hyfforddiant a chefnogaeth briodol ar eu cyfer.

Mae sefyllfa ieithyddol staff addysgu yn ein hysgolion yng Ngwynedd yn parhau'n iach. Nid yw'r swyddi yn parhau wag o ganlyniad i heriau ieithyddol – mae ein heriau recriwtio yn fwy penodol ym maes arweinyddiaeth ac mewn meysydd cwricwlwm arbenigol.

Adroddiad adran Tai ac Eiddo ar weithrediad y Polisi Iaith a chyfraniad tuag at wireddu Strategaeth Iaith Gymraeg 2023 - 2033

Dyddiad	9 Chwefror, 2026
Adran	Tai ac Eiddo
Awdur	Carys Fôn Williams, Pennaeth Tai ac Eiddo

1. Pa bolisiau a chynlluniau sydd mewn lle o fewn eich adran er mwyn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith? Nodwch y maes blaenoriaeth (blynnyddoedd cynnar, dysgu, gwaith a gwasanaeth, y gymuned neu ymchwil a thechnoleg)

Polisiau a chynlluniau strategol perthnasol

Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd

Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys 30 o brosiectau uchelgeisiol a chyffrous sy'n anelu i fynd i'r afael â'r argyfwng tai yng Ngwynedd. Nod pob un o'r prosiectau yw i sicrhau bod pobl Gwynedd yn gallu cael mynediad at dai addas, o safon, fforddiadwy ac sy'n gwella ansawdd eu bywyd.

Ers dechrau'r Cynllun, mae dros 11,300 o unigolion lleol wedi derbyn cymorth a chefnogaeth trwy wahanol ffyrdd yn sgil y Cynllun Gweithredu Tai, boed hynny'n grant neu eithriad treth Cyngor i adnewyddu tŷ gwag, benthyciad trwy'r Cynllun Prynu Cartref, llety a chefnogaeth trwy un o'n cynlluniau i'r digartref, neu grant i wneud addasiadau i dai pobl anabl fel bod modd iddynt barhau i fyw yn annibynnol gartref.

Mae'r Cynllun Cartrefi Gwag yn mynd i'r afael â dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd trwy ddarparu cefnogaeth i berchnogion ddod â'u tŷ i safon byw derbyniol, a chadw trigolion yn eu cymunedau. Mae 128 o grantiau wedi'u rhoi i brynwyr tai gweigion sydd â chysylltiad lleol er mwyn eu hadnewyddu i safon byw derbyniol. Mae hyn yn rhan o gyfanswm ehangach o 321 o dai gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd yn sgil cefnogaeth y Cyngor, nifer fawr o'r rhain yn brynwyr tro cyntaf lleol, sydd wedi galluogi iddynt aros yn eu cymuned. Er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ymateb i'r galw, cafodd y cynllun grantiau tai gwag ei ehangu yn niwedd 2025, trwy wneud addasiadau i'r modd yr oedd eiddo'n cymhwyso am y grant, a hefyd i godi trothwy incwm cymhwyso darpar ymgeiswyr. Roedd hyn yn dilyn addasiad a wnaed yn 2024 i gynnwys pob math o brynwr (nid prynwyr tro cyntaf yn unig), a chynnydd i'r uchafswm grant oedd ar gael fesul cais (o £20,000 i £25,000) i gyfarch cynnydd mewn costau deunyddiau adeiladu.

Mae ystyriaeth drylwyr o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi'i wneud wrth lunio'r Cynllun Gweithredu Tai, gan gynnwys nod sy'n ymwneud â'r Gymraeg, ac fe nodir yn glir sut mae pob prosiect yn cyfrannu at yr amcanion hynny ar bob tudalen. Ym mis Mai 2025, adolygwyd y Cynllun ac fe'i ehangwyd er mwyn cyfarch galw pobl Gwynedd heddiw, gan ymestyn oes y Cynllun i 2028/29.

Fel rhan o lunio asesiad effaith ar nodweddion cydraddoldeb, y Gymraeg a'r ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, ceir bod y Cynllun yn cael effaith bositif ar bob un o'r nodweddion cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg trwy gynyddu'r nifer a'r ystod o dai o fewn y sir ar gyfer anghenion gwahanol gymunedau. Bydd effaith bositif ar yr iaith Gymraeg trwy helpu canran uchel o drigolion Gwynedd sydd wedi'u prisio allan o'r farchnad dai gael mynediad at gartrefi fforddiadwy, neu trwy fenthyciadau, grantiau, rhyddhad trethi ac ati. Mae data am allu trigolion yn y Gymraeg a gasglwyd gan ein partneriaid tai ar stadau cymdeithasol newydd yn dangos bod 95% ar gyfartaledd o'r preswylwyr yn gallu'r Gymraeg. Ar gyfartaledd, roedd y stadau hyn yn cynnwys 26% yn fwy o siaradwyr Cymraeg na'r ward y'i lleolwyd ynddi, a 31% yn uwch na chanran y sir. Er enghraifft, ar stad Gwêl y Foel, Dinas, Llanwnda, mae 94% o breswylwyr newydd yn gallu'r Gymraeg i safon 'da' neu uwch, sydd 13% yn uwch na'r ward, a 30% yn uwch na Gwynedd. Ar stad newydd Cae'r Gors, Tregarth, mae 96% o breswylwyr y stad honno yn gallu'r Gymraeg yn 'dda' neu uwch, sydd 57% yn uwch na'r ward.

Strategaeth Tai Cyngor Gwynedd 2019-24

Mae nodau ac amcanion y Strategaeth yr un mor wir heddiw ag yr oeddent pan luniwyd y ddogfen yn 2019 ac mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn parhau i fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r amcanion hynny. Mae'r Adran wrthi'n diweddarau'r Strategaeth ar gyfer y cyfnod nesaf ar hyn o bryd ac yn paratoi i ymgynghori gyda phartneriaid a'r cyhoedd yn ystod y flwyddyn.

Prosiectau yng nghynllun y Cyngor

Gwynedd Glyd

- **Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol** – Trwy'r ffaith bod y ganran o osodiadau trwy'r gofrestr dai sy'n mynd i rywun â chysylltiad â Gwynedd yn gyson 97% ar gyfartaledd, a bod oddeutu 60% o osodiadau yn mynd i rywun â chysylltiad â'r gymuned y maent yn dymuno byw ynddi, rydym yn hyderus bod ein Polisi Gosod Tai Cyffredin yn rhoi'r cyfle gorau posib i sicrhau bod pobl leol yn cael blaenoriaeth resymol wrth osod tai. Fis Hydref, bu i ni fel Adran gyfarfod â Swyddfa'r Comisiynydd Iaith, a chafwyd cyfarfod cadarnhaol. Roeddent yn falch o weld bod ein polisi tai, sy'n rhoi pwyslais cryf ar gysylltiad lleol, a hynny ar ddwy lefel, lefel Gwynedd a'r lefel gymunedol, o gymorth i gryfhau'r Gymraeg a bod tystiolaeth i gefnogi hynny. Canmolwyd yr arfer da yma a nodwyd y byddai'n dda i eraill efelychu esiampï Cyngor Gwynedd. Mae ein gosodiadau canolraddol hefyd yn denu sawl teulu lleol pan hysbysebïr trwy Tai Teg. Trwy roi grantiau i berchnogion newydd ddod â thai gweigion yn ôl i ddefnydd a safon derbyniol, rydym yn llwyddo i gefnogi ar oddeutu 4 contractwr lleol ar gyfartaledd ar bob cais (sydd wedi cynyddu eleni o gymharu â'r llynedd). Mae hyn yn helpu cwmnïau a'r economi leol.
- **Ymdrin efo'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd** – Rydym yn cydweithio gyda phartneriaid i hwyluso cynlluniau arbed ynni, ac yn darparu grantiau a thalebau ynni er mwyn cynorthwyo trigolion sydd mewn tlodi tanwydd. Hyd yma mae 1,118 o dai wedi cynyddu eu tystysgrif perfformiad ynni (EPC), a 5,865 o dalebau ynni wedi'u rhoi i bobl Gwynedd. Gwaetha'r modd, yng Nghyllideb Hydref ddiweddar

Llywodraeth y DU, cadarnhawyd y bydd y cynllun ECO4 yn dod i ben ar 31 Mawrth 2026, heb gynllun ECO5 i'w ddilyn. O ganlyniad, mae'r cyllid sydd ar gael drwy'r cynlluniau ECO4 a GBIS Flex yn hynod gyfyngedig, ac nid oes gan nifer o'r darparwyr ECO cymeradwy sy'n cyflawni'r cynlluniau yng Ngwynedd fynediad at gyllid.

2. Beth arall sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg?

- Diweddaru asesiad effaith iaith Gymraeg y Polisi Gosod Tai Cyffredin – bydd yn hyn cael ei wneud ar yr un pryd ag addasiadau posibl i'r Polisi yn sgil deddfwriaeth newydd yn y maes Digartrefedd. Mae hyn i gyd yn ddibynnol ar amserlen y Llywodraeth a chyhoeddi'r ddeddfwriaeth newydd
- Parhau i gymryd pob cyfle o fewn ein gallu i gynorthwyo pobl leol Gwynedd gael mynediad at dai fforddiadwy trwy barhau o gynnig cyfleoedd am denantiaethau, grantiau, benthyciadau neu gefnogaeth.
- Parhau i dderbyn data am allu ieithyddol tenantiaid newydd ar stadau tai cymdeithasol

3. Ydy datblygiad technoleg wedi amharu ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? Os yn berthnasol rhwch enghraifft. Sut ydych chi'n sicrhau nad yw datblygiad technoleg yn effeithio ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

Yn gyffredinol, nid yw'r sefyllfa wedi newid ers y tro diwethaf i ni adrodd. Mae ein prif systemau swyddfa gefn ar gael yn Saesneg yn unig, ond mae'r Adran yn gwneud defnydd helaeth iawn o apiau a grëir yn fewnol trwy feddalwedd Microsoft PowerApps, ac mae'r rhain i gyd yn cael eu creu yn uniaith Gymraeg.

Mae porth ar-lein newydd wrthi'n cael ei gwblhau gan gwmni allanol fydd yn rhoi mynediad ar-lein i unigolion at ffurflen gais am eiddo cymdeithasol neu at gais byw – hyn am y tro cyntaf erioed. Er bydd prosesau papur a ffôn yn parhau ar gael i unrhyw un nad ydynt â mynediad neu'n gyfforddus yn defnyddio'r rhyngwyd, mae hyn yn hwyluso pethau'n arw i unrhyw un sy'n dymuno llenwi ffurflen ar-lein neu angen gwybodaeth y tu allan i oriau gwaith arferol.

Llwyddwyd i sicrhau y bydd y porth yn gwbl ddwyieithog. Daethpwyd o hyd i broblemau wrth brofi'r porth sy'n golygu nad yw'n barod i'w ryddhau eto, ond mae'r cwmni yn gweithio ar ddatrysiadau ar hyn o bryd. Ni fu'n bosib sicrhau bod y system swyddfa gefn (a ddefnyddir yn fewnol gan swyddogion) ar gael yn Gymraeg gan y byddai cyfieithu'r system yn golygu costau ychwanegol sylweddol oedd y tu hwnt i'r gyllideb oedd ar gael. Fodd bynnag, ni fydd hynny'n effeithio ar allu'r cyhoedd i gael mynediad at eu gwybodaeth na'r porth yn Gymraeg.

4. Sut ydych chi'n cadw cofnod o'r bobl sy'n defnyddio eich gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg? Allwch chi rannu data perthnasol?

Mae'r ffurflen gais am dŷ cymdeithasol yn cofnodi dewis iaith unigolyn er diben cysylltu gyda'r ymgeisydd (er nad yw'n ffurfio rhan o'r broses osod am dŷ). Yn hanesyddol nid oedd ein system yn caniatáu i ni adrodd ar y data hwn, a byddai'r tîm yn gwirio ac yn ymdrin â phob cais yn unigol. Fodd bynnag, yn sgil caffael system newydd, ddaeth yn fyw ym mis Tachwedd 2025, mae posib i ni echdynnu'r data hwn bellach ar gyfer y rheiny sydd wedi'u cofnodi*. Mae'r data sydd ar gael fel a ganlyn:

Tabl 1: Data iaith gohebu – Opsiynau Tai

iaith	Nifer
Cymraeg	855
Saesneg	805

**Nid yw'r data yn gyflawn gan oedd y data wedi'i gofnodi ar geisiadau sydd wedi trosglwyddo o'r hen system i'r system newydd*

Dechreuodd y Gwasanaeth Digartrefedd gofnodi dewis iaith ohebu unigolyn ers i'r system newydd ddod yn weithredol yn hydref 2024. Mae'r data fel a ganlyn:

Tabl 2: Data iaith derbyn gohebiaeth – Digartrefedd

Cymraeg	95
Saesneg	254
Arall	5

Byddwn yn sicrhau bod unrhyw ohebiaeth gychwynnol bob amser yn mynd yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg gyntaf, er mwyn ceisio annog a hybu defnydd yr iaith lle bynnag mae hynny'n bosib. Rydym hefyd yn sicrhau bod unrhyw bostiad ar gyfryngau cymdeithasol yr Adran yn digwydd fel bo'r Gymraeg yn cael ei darllen gyntaf, e.e. cyhoeddi'r post Saesneg cyn y Gymraeg fel bod y postiad Cymraeg yn ymddangos gyntaf ar ffrwd unigolyn.

5. Beth yw sgiliau iaith eich staff?

Mae'r Adroddiad Dynodiadau Iaith diweddaraf (Rhagfyr 2025) yn dangos bod 95.8% o staff yr Adran Tai ac Eiddo wedi derbyn rhyw fath o asesiad (boed yn hunanasesiad neu'n asesiad gan eu rheolwr llinell).

O'r rhain, mae 95.6% yn cyrraedd Dynodiadau Iaith eu swyddi. O edrych ar y rhai nad ydynt yn cyrraedd Dynodiadau Iaith eu swyddi, sylwn mai di-hyder yw nifer ohonynt ac nid oes amheuaeth gennym y byddai'r gallu ganddynt yn iawn i gynnig gwasanaeth dwyieithog i bobl Gwynedd. Mae rhan helaeth ein gweithlu ar lefel Hyfedredd neu Uwch.

6. Rhowch enghreifftiau o unrhyw rwystrau, cwynion a chanmolïaeth sy'n gysylltiedig gyda darparu a hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Fis Hydref, derbyniodd yr Adran gydnabyddiaeth a chanmoliaeth gan Swyddfa'r Comisiynydd Iaith mewn perthynas â'n polisi gosod tai. Fel eglurir uchod, roeddent yn falch o weld bod ein polisi tai, sy'n rhoi pwyslais cryf ar gysylltiad lleol, a hynny ar ddwy lefel, lefel Gwynedd a'r lefel gymunedol, yn fodd o helpu i gryfhau'r Gymraeg a bod tystiolaeth i gefnogi hynny. Gwelid hyn fel arfer dda a nodwyd y byddai'n dda i eraill efelychu esiampyl Cyngor Gwynedd. Mae'r Comisiynydd yn paratoi blog fydd yn cael ei gyhoeddi ar eu gwefan fydd yn manylu ar y mater hwn.

Adroddiad yr adran i Bwyllgor Iaith 2025:

[Adroddiad Adran Tai ac Eiddo.pdf](#)

Adroddiad Adran Gwasanaethau Corfforaethol ar weithrediad y Polisi Iaith a chyfraniad tuag at wireddu Strategaeth Iaith Gymraeg 2023 - 2033

Dyddiad	9fed o Chwefror 2026
Adran	Gwasanaethau Corfforaethol
Awdur	Ian Jones, Pennaeth

1. Pa bolisïau a chynlluniau sydd mewn lle o fewn eich adran er mwyn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith? Nodwch y maes blaenoriaeth (blynnyddoedd cynnar, dysgu, gwaith a gwasanaeth, y gymuned neu ymchwil a thechnoleg)

Mae gan Adran Gwasanaethau Corfforaethol bolisïau, cynlluniau strategol, prosiectau a ffrydiau gwaith penodol sydd yn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith.

Gweler isod enghreifftiau o sut mae'r Adran yn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith:

Polisïau a chynlluniau strategol perthnasol:

Polisi Caffael - Mae Polisi Caffael Cynaliadwy a Strategaeth Caffael wedi ei diweddarau yn ystod 2025 ac ar hyn o bryd yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgorau perthnasol ar gyfer cael eu mabwysiadu. Mae'r polisi a'r strategaeth yn cynnwys gofynion iaith.

Cymraeg 2050 - 'Miliwn o siaradwyr' - Mae Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn nodi dull hirdymor y Llywodraeth o gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae tri phrif thema, sef 'cynyddu nifer siaradwyr Cymraeg', 'cynyddu defnydd o'r Gymraeg' a 'creu amodau ffafriol'. Rydym yn gweithio yn gyson tuag at geisio hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn unol â Strategaeth Llywodraeth Cymru.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Mae 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' yn un o brif nodau llesiant y Ddeddf.

Cynllun Cydraddoldeb 2024 – 2028 - Pwrpas y cynllun cydraddoldeb yw lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd â nodweddion cydraddoldeb a phobl sydd ddim yn rhannu un o'r nodweddion. Mae amcanion y cynllun yn cyffwrdd â phob maes gwaith o fewn y Cyngor, ac yn rhoi fframwaith yn ei le i wella tegwch o fewn y sefydliad ac i sicrhau ein bod yn trin pobl yn ôl anghenion. Mae'r Gymraeg yn ganolog i holl agweddau'r cynllun.

Prosiectau Cynllun y Cyngor 2023 - 2028

- **Cadw'r Budd yn Lleol** - Mae prosiect Cadw'r Budd yn Lleol yn ceisio uchafu'r budd lleol ac yn hyn hyrwyddo a datblygu'r iaith. Mae bosib i ni asesu tendrau ar sail hyn ac mae mesurau iaith wedi datblygu. Mae'r mesurau yn cynnwys asesiad o swm ariannol ac adnodd amser mae cwmnïau yn gynnig wrth gyflawni gwaith. Mae'r

Uned hefyd wedi bod yn gweithio gyda'r Tîm Iaith i adnabod cwmnïau i dargedu ar gyfer cynllun 'Cynnig Gymraeg' Comisiynydd y Gymraeg.

- **Gwynedd Gymraeg** - Mae 'Gwynedd Gymraeg' yn ffrwd gwaith o Gynllun y Cyngor, gyda'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol yn arwain ar brosiectau i 'Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd'. Mae'r holl brosiectau dan Strategaeth Iaith Gwynedd 2023 – 2033 yn cyfrannu at y gwaith. Mae gwaith Strategaeth Iaith Gwynedd wedi ei rhannu i 5 maes gweithredu, ac rydym hefyd yn dangos sut mae amcanion ein strategaeth yn cyfrannu at 3 prif faes strategaeth Gymraeg 2050.
- **Ymchwil** - Mae'r Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth yn dadansoddi a rhannu gwybodaeth am sefyllfa'r iaith Gymraeg yn y sir, er mwyn llywio penderfyniadau a pholisïau ar draws y Cyngor gan gynnwys Cynllun y Cyngor.

Blaenoriaethau Cynllun Ffordd Gwynedd 2023 - 2028

- **Gweithlu Bodlon ac Iach** - Mae Gweithlu Bodlon ac Iach yn un o flaenoriaethau ffrwd gwaith Cynllun Ffordd Gwynedd. Mae Cynllun Llesiant staff newydd ei fabwysiadu fel rhan o'r ffrwd gwaith hynny ac mae'r gynhaliaeth Llesiant sydd ar gael i staff yn gwbl ddwyieithog gyda phwyslais mawr ar yr iaith yn y broses caffael ar faterion fel Gwasanaeth Cwnsela staff ayb.
- **Cynllunio'r Gweithlu a Datblygu Talent** – Mae Cynllunio'r Gweithlu a Datblygu Talent yn ffrwd gwaith Cynllun Ffordd Gwynedd. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ddenu a chadw staff yn y tymor hir, trwy sicrhau fod yna gyflenwad digonol o staff ar gael i ddiwallu anghenion gwasanaethau, ac yn benodol felly staff sydd yn gallu'r Gymraeg.
- **Cynllun Digidol y Cyngor**: Mae Cynllun Digidol y Cyngor yn rhan o ffrwd gwaith blaenoriaeth Trawsnewid Ddigidol Cynllun Ffordd Gwynedd. Mae gwaith ar wybodaeth a data yn digwydd gan y Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth ac mewn cydweithrediad ag Adrannau eraill, i hwyluso mynediad i ddata a gwybodaeth y tu mewn a'r tu allan i'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

Prosiectau a chynlluniau eraill gan wasanaethau Adran Gwasanaethau Corfforaethol:

- **Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth** – Mae rhaglen ymchwil y gwasanaeth yn cynnwys nifer o brosiectau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yng Ngwynedd, e.e. dadansoddi tueddiadau cyfran siaradwyr dros amser (sy'n ffurfio rhan o Asesiad Llesiant y gwahanol ardaloedd ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) ac edrych ar effaith y Premiwm Treth Gyngor ail gartrefi ar ddefnydd tai yng Ngwynedd. Mae'r gwasanaeth yn dadansoddi a rhannu amrywiaeth o wybodaeth ystadegol ynglŷn â'r Gymraeg yng Ngwynedd ac yn ei rannu ymysg Adrannau ar gyfer ffurfio sylfaen tystiolaeth i bolisïau a phenderfyniadau.

- **Gwasanaeth Caffael** – Mae Strategaeth Caffael newydd wedi ei dylunio, sydd yn gosod cyfeiriad strategol ar gyfer holl weithgarwch caffael yng Nghyngor Gwynedd. Mae'r Strategaeth yn dwyn ynghyd y cyfreithiau, rheolau a pholisïau sy'n rheoleiddio caffael cyhoeddus, yn ogystal â blaenoriaethau lleol y Cyngor, drwy sefydlu saith maes blaenoriaeth sydd wedi'u hadnabod fel meysydd allweddol yng nghyd-destun caffael yng Nghyngor Gwynedd er mwyn sicrhau'r budd mwyaf o weithgarwch caffael. Roedd hybu ffyniant y Gymraeg yn ffactor bwysig wrth lunio'r Strategaeth yn wreiddiol, a gwelir ei fod wedi'i gynnwys fel un o'r meysydd blaenoriaeth, gydag un o'r nodau yn cynnwys hybu ac annog y Gymraeg ym mhrosesau caffael a chontractau'r Cyngor. Ystyrir bod meysydd blaenoriaeth eraill yn y Strategaeth hefyd yn cael effaith bositif ar yr iaith Gymraeg, megis y maes blaenoriaeth o uchafu'r gwerth cymdeithasol trwy weithgaredd caffael. Mae'r Strategaeth yn nodi y dylid cynnwys gwerth cymdeithasol yn rheolaidd fel rhan o feini prawf gwerthuso tendrau, ble'n briodol, sydd yn hybu'r Gymraeg wrth i rai o'r mesurau gwerth cymdeithasol adlewyrchu'r nod llesiant 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Mae'r Strategaeth wedi bod gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, ac yn mynd gerbron y Cabinet ar yr 20fed o Ionawr 2026.

Tra bod y Strategaeth yn gosod gweledigaeth a blaenoriaethau lefel strategol, mae'r Polisi yn ymdrin â'r manylion gweithredol. Mae'r Gwasanaeth Caffael wrthi'n adolygu a diweddarau Polisi Caffael y Cyngor, gan anelu iddo fod yn weithredol o'r 1af o Ebrill 2026, er mwyn sicrhau bod trefniadau gweithredol o gaffael y Cyngor yn gadarn. Fel yn y Polisiâu blaenorol, bydd y Polisi newydd yn nodi'r dyletswyddau o ran y Gymraeg wrth gaffael gan sicrhau bod y Polisi Caffael a gweithgaredd caffael y Cyngor yn cydymffurfio â Pholisi Iaith y Cyngor yn ogystal â Safonau'r Iaith Gymraeg perthnasol.

Mae'r Gwasanaeth Caffael wedi derbyn barn gyfreithiol ar ddefnydd y Gymraeg ym mhrosesau caffael y Cyngor – roedd y farn gyfreithiol yn nodi bod y Cyngor yn gwneud cymaint â phosib, o fewn cyfyngiadau deddfwriaethol, i gyflawni ei ddyletswydd i amddiffyn a hyrwyddo'r Gymraeg yn ei phrosesau caffael. Mae'r Strategaeth a Pholisi Caffael yn cyd-fynd â'r farn gyfreithiol honno.

- **Gwasanaeth Cefnogol** – Mae'r modiwlau i staff o fewn y system Hunanwasanaeth staff yn cael eu datblygu yn ddwyieithog. Mae'r Gwasanaeth Cefnogol yn parhau i ddisgwyl i'r Gwasanaeth DBS yn Lerpwl i ddatblygu ffurflen gais ar-lein yn y Gymraeg.
- **Gwasanaeth Gofal Cwsmer a Chofrestru** - Wrth sefydlu system ffôn newydd Webex, mae'r tîm Cyswllt Cwsmer wedi ymgynghori gyda'r Tîm Iaith i gytuno ar sut mae'r Cyngor am ddarparu negeseuon ffôn, h.y. Cymraeg a Saesneg ochr yn ochr neu'r ddwy iaith ar wahân. Wedi rhannu'r wybodaeth yma gyda'r tîm rhwydwaith llais er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y Cyngor. Mae system ffôn Galw Gwynedd wedi'i addasu i gyd fynd â'r Polisi Iaith, mae pob neges ar y system ffôn yn rhoi'r Gymraeg yn gyntaf wedyn y Saesneg. System CRM mae staff yn cofnodi nodiadau am

geisiadau cwsmer yn y Gymraeg neu iaith y cwsmer. Mae darpariaeth 'sgwrs fyw' ar gael ar wefan y Cyngor ac ar gael yn ddwyieithog i drigolion ddefnyddio.

O ran Bathodyn Glas mae cwsmeriaid yn cael asesiad symudedd yn y Gymraeg os mai dyma yw eu dymuniad.

Mae'r Gwasanaeth Cofrestru yn cydweithio gyda'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol i ddatblygu system fewnol newydd er mwyn sicrhau bod safon y Gymraeg yn dderbyniol. Cynigir pob apwyntiad yn ddwyieithog i drigolion. Croesewir pob seremoni priodas / partneriaeth sifil yn ddwyieithog hyd yn oed os yw'r cyplau yn uniaith Saesneg. Rhoddir y cynnig ar gychwyn pob cofrestriad (genedigaeth a marwolaeth) os ydynt am gofrestru yn ddwyieithog.

Mae'r Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer a Chofrestru wedi pwyso ar Lywodraeth Cymru sawl blwyddyn yn ôl i newid y ffordd o gynnal asesiad wyneb yn wyneb ar gyfer bathodyn glas, yn hytrach na anfon cyfieithydd allan mae'r asesydd yn cynnal yr asesiad yn Gymraeg (os mai dyma yw dewis y cwsmer).

Mae newidiadau wedi bod i Ddeddfwriaeth Cofrestru Marwolaeth mis Medi 2024, ble mae gan y crwner y gallu i gofrestru marwolaethau - mae'r templed yma wedi ei ddarparu gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol ond ar gael yn uniaith Saesneg ar hyn o bryd. Mae Crwner a Chofrestryddion Gwynedd wedi gofyn am daflen ddwyieithog er mwyn gallu cofrestru yn ddwyieithog.

Mae'r Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer a Chofrestru yn cydweithio gyda'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol i brofi'r system DRS (Digital Registration System) newydd fydd yn cael ei gyflwyno yn ystod y flwyddyn.

Mae system awtomeiddio wedi'i ddarparu yn ddwyieithog yn Galw Gwynedd – Cymraeg yn gyntaf / Saesneg wedyn er mwyn hyrwyddo'r iaith i gwsmeriaid.

- **Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant** - Mae polisiau mewnol yn ogystal â hyfforddiant ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg gan yr Uned Iechyd a Diogelwch a'r Uned Iechyd Galwedigaethol.

Mae gwaith wedi digwydd ar y cyd gyda IOSH (prif sefydliad proffesiynol y maes iechyd a Diogelwch yn genedlaethol) i fod yn achredu cwrs Rheoli'n Ddiogel yn y Gymraeg, a Chyngor Gwynedd ydi'r unig sefydliad yng Ngogledd Cymru i'w gynnig trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gwaith yma wedi digwydd ar y cyd gyda Phrifysgol Aberystwyth. Mae cyrsiau Rheoli'n Ddiogel wedi eu rhaglennu ar gyfer 2026 yn y Gymraeg – y tro cyntaf i'r cwrs rhyngwladol hwn gael ei gyflwyno mewn iaith arall heblaw Saesneg.

Mae hyfforddiant Rheoli Safle ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal mae trefniadau wedi eu cyflwyno i sicrhau bod cwrs diweddaraf I-Act yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg.

Yn ddiweddar mae Holiadur “Modelau Diogelwch” wedi ei gyflwyno i reolwyr y Cyngor er mwyn asesu diwylliant iechyd a diogelwch y Cyngor, sicrhawyd fod yr holiadur ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.

- **Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu** - Cyfyngau cymdeithasol - defnyddir un cyfrif lle y cyhoeddir negeseuon yn y ddwy iaith. Mae hyn yn golygu fod ein dilynwyr i gyd yn gweld ein negeseuon yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Cyhoeddir pob neges mewn ffordd sy'n golygu mai'r neges Gymraeg sydd ar frig y ffrwd.

Fideos - Rydym yn cynhyrchu ein clipiau fideo cyfyngau cymdeithasol yn y Gymraeg ac yn ychwanegu is-deitlau Saesneg er mwyn normaleiddio'r defnydd o'r iaith.

Y wasg a'r cyfyngau - Rydym yn darparu atebion i gyd drwy gyfrwng y Gymraeg i'r cyfyngau Cymreig. Gan fod ein swyddogion, Arweinydd ac Aelodau Cabinet yn siaradwyr Cymraeg, rydym yn darparu nifer fawr o gyfranwyr ar gyfer y cyfyngau iaith Gymraeg.

Cyfathrebu efo staff - Mae Cyngor Gwynedd yn flaengar o ran sut rydym yn cyfathrebu efo staff ac yn helpu i normaleiddio'r iaith drwy dechnoleg, e.e. ein defnydd o'r grŵp Facebook staff / sesiwn byw'r Prif Weithredwr. Mae'r dudalen gartref a'r adran newyddion ar y fewnrwyd a'r cylchgrawn staff yn uniaith Gymraeg, gyda chopi Saesneg ar gael ar ofyn.

Gwefan y Cyngor - Mae'r holl gynnwys a gwasanaethau ar-lein ar wefan ac ap Cyngor Gwynedd yn ddwyieithog ac rydym yn cymryd camau rhagweithiol i annog defnyddwyr i ddefnyddio'r wefan yn Gymraeg.

Ymgysylltu Cyhoeddus – Cynhelir pob ymarferiad ymgysylltu yn gyfan-gwbl ddwyieithog ac mae unrhyw grwpiau ffocws, cyfarfodydd cyhoeddus, sesiynau galw heibio ac ati yn cael eu cynnal gan hwyluswyr a swyddogion dwyieithog.

- **Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith** - Cydymffurfiaeth gyda Pholisi iaith a Safonau'r Gymraeg - Dros y flwyddyn ddiwethaf penderfynwyd canolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant i reolwyr ar y polisi iaith a Safonau'r Gymraeg drwy ymweld gyda thimau rheoli er mwyn gwella cydymffurfiaeth. Mae sylw hefyd wedi ei roi i ddarparu gwybodaeth i reolwyr ar y mewnrwyd, cynnal sesiynau ymwybyddiaeth iaith, datblygu fideo ymwybyddiaeth iaith ar gyfer y sesiwn anwytho staff newydd a chefnogi timau sy'n wynebu anawsterau recriwtio siaradwyr Cymraeg. Bu'r adran hefyd yn rhan o Ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg Comisiynydd y Gymraeg sy'n ceisio annog y cyhoedd i ddefnyddio gwasanaethau drwy'r Gymraeg.

Prosiect 15 - Comisiynwyd cwmni allanol i weithredu Prosiect 15, prosiect sy'n ceisio cael pobl ifanc i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg ar y cyfyngau cymdeithasol. O ganlyniad mae cyrhaeddiad y sianeli cymdeithasol wedi cynyddu yn sylweddol, gyda +814.9% yn fwy yn rhyngweithio gyda'r cynnwys ers y cyfnod hwn llynedd ar instagram a 12K o hoffiadau ar Tiktok, sy'n gynydd o 12K ers llynedd. Cydweithiwyd

gyda nifer o ddylanwadwyr yn ogystal â grwpiau lleol a chymunedol i greu cynnwys addas.

Fforwm Iaith Gwynedd - Cydlynir y fforwm, sy'n cynnwys dros 20 o sefydliadau, gan swyddogion y Cyngor. Prif nod y fforwm yw hybu defnydd o'r Gymraeg a chydweithio i osgoi dyblygu gwaith. Eleni bu is-grŵp pobl ifanc y fforwm yn ymgynghori gyda phobl ifanc ynglŷn â'u hagwedd a'u defnydd o'r Gymraeg. Prif gasgliad oedd diffyg ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel sgil yn y byd gwaith. Amlygodd y data bod gwahaniaeth yn nefnydd y Gymraeg a'r hyder i'w ddefnyddio ar gyfryngau cymdeithasol lle mae'r Gymraeg ar ei gwanaf a hefyd cwmp yn y rhai sydd yn hyderus yn ysgrifennu yn Gymraeg, o gymharu â'i siarad. Mae'r is-grŵp yn gweithio ar brosiect a fydd yn taclo hyn.

Cydweithio gydag eraill i hyrwyddo'r Gymraeg - Mae cynrychiolydd o'r adran yn parhau aelod o sawl bwrdd partneriaeth gan gynnwys Is-grŵp iaith Gymraeg Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Grŵp cynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd Comisiynydd y Gymraeg, Bwrdd Partneriaeth Safle Treftadaeth y Byd a'r is-grŵp buddion a Rhwydwaith WISERD sy'n rhoi sylw i ymchwil ieithoedd lleiafrifol. Mae Is-grŵp y Gymraeg Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio ar brosiect Chwalu'r Mythau sy'n cynhyrchu adnoddau i sefydliadau cyhoeddus eu defnyddio i helpu chwalu'r mythau sy'n ymwneud gyda'r Gymraeg a chynorthwyo i recriwtio siaradwyr Cymraeg i sefydliadau. Mae trafodaethau yn parhau ynghylch sut y gellir asesu effaith safle treftadaeth byd ar y Gymraeg yn dilyn peilot yn ardal Dyffryn Ogwen gyda phrifysgol Bangor. Bu cydweithio hefyd gyda TUC Cymru ar Siarter Twf sef Siarter y Gymraeg yn y Gwaith sy'n cynnwys pedair egwyddor graidd i gefnogi'r broses o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith. Mynychwyd lansiad swyddogol cenedlaethol y siarter gan y TUC yn yr Eisteddfod Genedlaethol a bu swyddog yn aelod o banel trafod pwysigrwydd y Gymraeg yn y gweithle a beth all eraill wneud i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Edrychwn ymlaen at weld y cyngor a'r undebau llafur yn mabwysiadu ac arwyddo'r siarter yn fuan yn 2026.

Prosiect Enwau Lleoedd - Mae sawl elfen o'r rhaglen waith wreiddiol y prosiect wedi eu cyflawni, gan gynnwys cynnal sesiwn hyfforddi enwi eiddo i staff yn ogystal â gweithdai niferus mewn ysgolion ar enwau lleoedd a sut i gofnodi ar fap enwau lleoedd Cyngor Gwynedd. Mae ap rhestr enwau swyddogol Cyngor Gwynedd wedi ei chreu a chyd-weithio gyda Chyngor Cymuned a Chymdeithas Ddinesig er mwyn trefnu gosod arwyddion newydd mewn rhai mannau a strydoedd er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg yn weledol yn y gymdeithas. Rhoddwyd hefyd gyngor i gynghorau sir eraill ar y broses o enwi eiddo. Mae cydweithio hefyd wedi bod gyda'r Arolwg Ordans ac Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ar ddefnyddio enwau Cymraeg ar draethau a rhaeadr.

Peilot Arolwg Defnydd Iaith - Gwerthuswyd peilot arolwg defnydd iaith gan gwsmeriaid sy'n defnyddio rhai o wasanaethau rheng flaen Cyngor Gwynedd. Dengys y canlyniadau:

- Bod y Gymraeg yn iaith fyw sy'n cael ei defnyddio yn ddyddiol gan drigolion Gwynedd gyda 71.8% o'r sampl arsylwyd yn dewis gwasanaethau Cymraeg a 28.2% yn dewis gwasanaethau Saesneg;
- Mai plant sydd siarad Cymraeg fwyaf;
- Bod lleihad mewn defnydd o'r Gymraeg wrth fynd yn hŷn;
- Bod pobl yn tueddu i ddefnyddio Cymraeg mewn mannau sy'n darparu gwasanaethau anffurfiol yn y gymuned fel y ganolfan hamdden a'r llyfrgell yn hytrach na chanolfan alwadau sy'n darparu gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau mwy ffurfiol.

Menter iaith Gwynedd - Rhoddwyd grant i Fenter iaith Gwynedd ar gyfer gwireddu rhai elfennau o strategaeth iaith Gwynedd a chyfrannu tuag at gostau staff 2025-2026.

Blynyddoedd cynnar - Bu'r fenter yn cydweithio gyda Sesiwn Fawr Dolgellau i gynnal digwyddiad Hwiangerddi i rieni a phlant. Mae'r prosiect hwn yn un mae'r Fenter yn ei ddatblygu gyda cherddorion gwerin i gyflwyno/ ail gyflwyno pobl Gwynedd i hwiangerddi traddodiadol sydd modd eu canu i blant. Mae'r gwaith yn cynnwys rhestr chwarae fydd yn cael ei recordio yn broffesiynol fel bod pobl yn gallu gwrandao a chyd ganu adref. Cynhaliwyd hefyd sesiwn chwarae gemau buarth yn Gymraeg yn Ysgol y Garnedd ym Mangor a gweithgareddau i blant, gyda'r cyfle i drafod efo'r rheini, yn ysgol y Faenol ym Mangor yn ystod eu ffair haf.

Iaith Dysgu - Rhoddwyd sylw i godi ymwybyddiaeth a chreu negeseuon cadarnhaol i bobl ifanc am y Gymraeg a'i gwerth yn y byd Gwaith. Bu cydweithio gyda swyddogion Siarter Iaith Gwynedd i gynnal taith gan Gareth yr Orangwtan a Hywel Pitts i ysgolion uwchradd Arfon, 5 ysgol i gyd. Sioe i blant yr oed pontio oedd hon gydag elfennu o'r sioe yn trafod pa swyddi sydd angen y Gymraeg ynddynt ar ôl gadael Ysgol. Cynhaliwyd hefyd daith cerddoriaeth ysgolion Gwynedd, gyda Ed Holden yn gwneud gweithdai rapio a Mei Emrys yn gwneud gweithdai sylwebu gydag ymweliadau i Frynrefail, Tywyn, Arduwy, Friars, Moelwyn a Dyffryn Nantlle. Mynychodd swyddog y fenter gyfarfod Cyngor Iaith yr ysgol (cyngor ysgol llawn mewn rhai ysgolion) a gwnaed sesiwn ymwybyddiaeth iaith a thrafod sut gall y Fenter eu cefnogi i hyrwyddo'r Gymraeg yn yr Ysgol.

Gwaith a Gwasanaeth -Rhoddwyd sylw i ddatblygu defnyddio'r Gymraeg gan fusnesau a chynnig mwy o wasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg gan dargedu 20 o fusnesau yn Nolgellau a Porthmadog yn y cyfnod hwn. O ganlyniad mae 20 busnes bellach yn arddangos yr arwydd "Hapus i Siarad" Cymraeg yn dilyn ymweliad ac anogaeth. Bydd ymgyrch sirol i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun, hynny ymysg dysgwyr, siaradwyr Cymraeg a Busnesau, ar y cyd gydag Uned Iaith ac Adran Economi Cyngor Gwynedd, yn Nhachwedd 2025.

Cymunedau - Rhoddwyd sylw i gynyddu cyfleoedd hyfforddi a dysgu anffurfiol yn y gymuned a sicrhau bod cyfleoedd ar gael ym mhob rhan o'r sir drwy drafod gyda'r Urdd, Gwasanaeth Ieuenctid a Byw'n Iach i sicrhau nad oes dyblygu gweithgareddau mewn rhai ardaloedd a bod adnoddau yn cael eu targedu yn y mannau gorau. Mae

cynlluniau i gefnogi gwirfoddolwyr lleol i gychwyn aelwyd newydd i bobl ifanc yn Llanystumdwy ac ym Mhenrhosgarnedd o feddi 2025 ymlaen.

Cynhaliwyd hefyd 13 o weithgareddau a sesiynau sgwrsio cymunedol i ddysgwyr, un ymhob ardal llesiant yng Ngwynedd, sydd yn rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer a magu hyder mewn awyrgylch anffurfiol. Cefnogwyd mudiadau cymunedol i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn lleol gan gynnwys pwyllgor neuadd Rhiwlas a chriw yn Ninas Mawddwy. Gwnaed cynnydd hefyd gyda'r Prosiect Clybiau Chwaraeon. Ymgynghorwyd gyda chlybiau chwaraeon a chreu sgerbwd o becyn fydd yn eu cefnogi i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg/ parhau yn Gymraeg tra hefyd yn croesawu newydd ddyfodiaid at eu clybiau ac at yr iaith. Daeth clybiau - CPD y Felinheli, CPD Cae Glyn, Clwb Rygbi Bethesda, Clwb Rygbi Caernarfon, CPD Dolgellau a CPD Llanystumdwy i ddigwyddiad arbennig i weld cynnwys y pecyn a mewnbynnu syniadau iddo ym Mhorthmadog ganol Awst a'r gymuned.

- **Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad – Llawlyfr Dysgu a Datblygu –** Mae'r llawlyfr yn cynnig cyngor a chyfarwyddiadau am ddynodiadau iaith, hunanasesu iaith a'r gefnogaeth sydd ar gael i annog staff i ddefnyddi'r Gymraeg yn y gweithle ac wrth hyfforddi.

Talent a Phrentisiaethau - Fe gwblhawyd Adroddiad Darpariaeth Iaith Gymraeg 2025, ac fe rannwyd canlyniadau'r adroddiad gyda'r Bwrdd Talent a Phrentisiaethau. Roedd yr adroddiad cyn cynnwys ymateb prentisiaid cyngor Gwynedd ac aelodau staff ar draws y cyngor sy'n dysgu'n seiliedig ar waith. Mae defnydd o'r Saesneg yn unig wedi lleihau ychydig. Mae defnydd o gyfrwng cymysg wedi cynyddu'n sylweddol (+7.7%). Mae defnydd o'r Gymraeg yn unig wedi aros yn debyg, ond ychydig yn is.

O ran hyder iaith, mae nifer yr unigolion sy'n hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg wedi aros yn sefydlog, gyda hyder rhannol wedi cynyddu'n sylweddol. Mae hyder uchel wedi parhau'n sefydlog. Mae'r cynnydd mewn hyder rhannol (+7.7%) yn awgrymu bod mwy o unigolion yn teimlo'n gyfforddus gyda rhai agweddau ar ddefnyddio'r iaith. Yn ogystal, mae'r nifer sy'n dweud nad ydynt yn hyderus o gwbl wedi gostwng yn sylweddol (-6.3%), sy'n dangos gwelliant cadarnhaol.

Er gwaethaf y cynnydd hwn, ac er ein bod wedi gwneud camau breision wrth gyflawni amcanion blwyddyn gyntaf y cynllun gweithredu, mae nifer o heriau'n parhau. Am ddwy flynedd yn olynol, mae'r ganran sy'n dymuno astudio drwy gyfrwng y Saesneg wedi aros yn 80.0%, gyda 20.0% yn dymuno astudio drwy'r Gymraeg. Er bod gwelliant wedi bod yn y ddarpariaeth Gymraeg, nid yw hyn eto wedi arwain at gynnydd yn y galw am astudio drwy'r Gymraeg.

Hyfforddiant iaith:

- Mae 29 aelod o staff yn derbyn hyfforddiant iaith ar hyn o bryd, gyda 10 ychwanegol wedi cofrestru ar hyfforddiant sydd eto i ddechrau. Cynhaliwyd sgwrs ymgynghorol gydag 8 aelod arall o staff sydd eto i gofrestru ar gwrs addas.
- Trefnwyd cyfres o 10 sesiwn 'Datblygu Sgiliau Iaith' i staff o fis Ionawr-Mawrth 2025. Trefnwyd y sesiynau trwy'r cynllun Cymraeg Gwaith ac fe'u darparwyd gan diwtor o Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin. Oherwydd eu llwyddiant a'r gofyn am gwrs o'r fath, mae cwrs tebyg wedi'i drefnu eto ar gyfer Ionawr-Mawrth 2026.
- Prosiect Hyfforddiant Iaith yn y maes Gofal - gwaith ar y cyd â'r adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin a Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r prosiect wedi caniatáu i ni gael tiwtor Cymraeg yn benodol ar gyfer y maes Gofal yng Nghyngor Gwynedd o Fedi 2025-Mawrth 2026. Mae staff o gartrefi gofal a staff gofal cartref yn rhan o'r cynllun ac oddeutu 50 aelod o staff yn derbyn gwersi Cymraeg erbyn hyn. Mae'r tiwtor yn cynnig gwersi lefel Mynediad i rai heb sgiliau Cymraeg/sydd efo sgiliau sylfaenol iawn, a sesiynau codi hyder i staff sy'n medru'r Gymraeg ond ddim wedi'i defnyddio ers sbel neu ddim yn hyderus i'w defnyddio yn y gwaith.
- Trefnwyd sesiwn fer gyda Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn rhoi gwybod i reolwyr cartrefi gofal Cyngor Gwynedd beth maen nhw'n ei gynnig i helpu staff ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.
- Trefniadau/sesiwn anwytho staff gofal – Bu'r Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg yn cydweithio gyda staff o dîm Datblygu Gweithlu'r adran Plant a Chefnogi Teuluoedd i sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael i staff newydd sy'n ymuno â'r gweithlu gofal. Recordiwyd fideo i'w gynnwys yn y sesiwn anwytho sy'n rhoi gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael i staff ddatblygu eu sgiliau Cymraeg wrth weithio i Gyngor Gwynedd. Mae dolen at gwrs Croeso: Iechyd a Gofal sy'n cael ei ddarparu gan Cymraeg Gwaith wedi'i gynnwys yn rhan o drefniadau anwytho staff newydd hefyd.
- Sesiwn hyfforddiant Cyfathrebu Clir wedi'i chreu a'i darparu i staff am y tro cyntaf. Mae'r hyfforddiant yma yn cefnogi staff i ysgrifennu mewn Cymraeg sy'n fwy clir, cryno a dealladwy. Y gobaith yw y bydd hyn, yn ei dro, yn annog mwy o'r cyhoedd i ddewis ac i ddarllen y fersiwn Gymraeg heb orfod troi at y Saesneg.
- Fis Mawrth, ynghyd â staff o'r Uned Iaith, cynhaliwyd sesiwn i griw o bobl oedd ar gwrs Tystysgrif Sgiliau Iaith yn Nant Gwrtheyrn (10 dysgwr a 2 diwtor). Roeddent eisiau ymweld â gweithle sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Soniwyd am sefyllfa'r Gymraeg yng Ngwynedd, yn y Cyngor a'r hyn rydan ni'n ei wneud i hyrwyddo'r Gymraeg. Daeth un o ddysgwyr Cymraeg y Cyngor atom i rannu ei phrofiadau a rhannwyd adborth gan ddysgwr arall hefyd.

Sgiliau Iaith Staff:

- Dashfwrdd Power BI Dynodiadau Iaith i benaethiaid – mae'r tîm Ymchwil a Gwybodaeth wedi creu'r dashfwrdd i sicrhau bod gan benaethiaid adran fynediad uniongyrchol at ddata iaith eu hadran nhw.

- Mae'r cynllun Cyfeillion Cymraeg yn parhau gan gynnig cyfleoedd ychwanegol i staff ymarfer eu sgiliau Cymraeg gydag aelodau eraill o staff y Cyngor sy'n gwirfoddoli i'w cefnogi. Mae 7 unigolyn yn derbyn cefnogaeth ar hyn o bryd.
- Tip Cymraeg y Mis yn parhau i gael ei greu a'i rannu yn fewnol a gyda Nant Gwrtheyrn.
- Yr Hwb Hyfforddiant Iaith mewnol yn cael ei ddiweddarau'n gyson gyda chyfleoedd am hyfforddiant iaith a gwybodaeth am adnoddau defnyddiol.
- Cydweithio cyson gyda'r Uned Iaith ar waith a phrosiectau perthnasol. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi canolbwyntio ar gynnal sesiynau Ymwybyddiaeth iaith i staff ac i reolwyr, yn ogystal â mynychu timau rheoli rhai o'r adrannau i drosglwyddo gwybodaeth am y polisi iaith, Safonau'r Gymraeg a chyfleoedd am hyfforddiant iaith. Rydym hefyd yn cefnogi staff ac adrannau trwy edrych ar ddefnydd y Cyngor o Gymraeg clir.
- **Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol:-** mae'r Gwasanaeth yn sicrhau fod gan staff fynediad i wybodaeth a chynghor am holl agweddau eu cyflogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae'n cydweithio â swyddogion undebau llafur i sicrhau fod posib i staff dderbyn cefnogaeth ganddynt hwythau trwy gyfrwng dewis iaith staff. Mae hyn yn cynnwys trefnu fod cyfieithydd ar gael mewn gwrandawiaidau cyflogaeth ffurfiol.

Mae holl drefniadau recriwtio a phenodi'r Cyngor yn ddwyieithog gan gynnwys y drefn o derbyn ffurflenni cais am swyddi gwag.

2. Beth arall sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg?

(e.e. addysg, adnoddau, teuluoedd, hyrwyddo defnydd o wasanaeth drwy'r Gymraeg)

Dros y flwyddyn nesaf bydd gwaith parhaus yn digwydd yn yr Adran er mwyn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

O fewn y maes **caffael** mae Ddeddfwriaeth Caffael Cenedlaethol Cymru yn cael ei datblygu. Mae posibilrwydd y bydd angen adrodd ar ddefnydd a datblygiad y Gymraeg yn y gadwyn gyflenwi neu y gallu i warchod cyfleon tendrau llai o fewn y Sir neu'r rhanbarth.

Yn y maes **iechyd a diogelwch** ac **iechyd galwedigaethol** bydd gwaith yn parhau i ddigwydd er mwyn sicrhau fod pob deunydd hyfforddiant newydd ar gael yn ddwyieithog. Yn ogystal bydd unrhyw adnoddau digidol e.e. modiwlau e-ddysgu ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Hefyd, bydd cyfleoedd parhaus i staff y Cyngor fod yn ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd technegol a sesiynau llesiant a gaiff eu trefnu.

Yn y maes **democratiaeth ac iaith** mae bwriad o greu canllaw cyflawn ar gyfer asesiadau effaith ar y Gymraeg, hynny er mwyn arwain pobl drwy ateb y cwestiynau iaith. Ynghyd a

hynny bydd cydweithio yn digwydd â chydaddoldeb er mwyn creu fideo ar y system electronig newydd.

Bydd gwaith cydweithio'n digwydd gyda TG ar ddatganiadau iaith o dan y safonau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Yn dilyn peilot llwyddiannus mewn rhai gwasanaethau bydd y Gwasanaeth Democratiaeth ac iaith yn ystyried sut mae modd mesur dewis iaith yn gyson yn y dyfodol a'i ymestyn i ragor o wasanaethau.

Mae llawer o waith yn digwydd gan y Gwasanaeth **Dysgu a Datblygu'r Sefydliad**. Mae angen edrych ar sut y mae hyfforddiant yn cyfarch anghenion ieithyddol staff sydd yn derbyn hyfforddiant gennym sydd y tu allan i'r Cyngor e.e. Bwrdd Uchelgais, Byw'n Iach a Chefnffyrdd. Mae staff y Cyngor yn derbyn pob hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg, oni bai bod arbenigedd darparwr yn flaenoriaeth a'r hyfforddwr hwnnw yn methu siarad Cymraeg. Mae unrhyw staff sydd angen cefnogaeth gyda'i Cymraeg yn gallu gofyn am hynny drwy gysylltu gyda'r darparwr. Mae ambell gwrs hyfforddi arbenigol (e.e. iACT) yn methu a chyflwyno llyfrynnau drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd, ond mae gwaith yn cael ei wneud i gysylltu gyda'r prif ddarparwyr a chael y llyfrau wedi eu cyfieithu.

Talent a Phrentisiaethau:

Mae'r Tim Talent a Phrentisiaethau bellach ar ail flwyddyn o gynllun gweithredu tair blynedd, ac yn parhau i hyrwyddo cyfleoedd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a monitro'r sefyllfa er mwyn sicrhau gwelliant parhaus. Gellir gweld amcanion blwyddyn dau ar dudalen 16 yr [adroddiad](#).

Am dros flwyddyn bellach, mae'r Gymraeg, hyrwyddo cyfleoedd i'w defnyddio, a meithrin hyder yn bwynt sefydlog ar agenda pob rhwydwaith Prentisiaid a Hyfforddeion Proffesiynol, sy'n cyfarfod tair gwaith y flwyddyn.

Daeth swyddog o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i drafod yr adnoddau sydd ar gael i brentisiaid, a'r cyfleoedd ar eu porth dysgu.

Gwnaeth y tîm hefyd sicrhau bod Prentisiaid a Hyfforddeion Proffesiynol yn cael sesiwn gyda Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg dan faner ein 'sesiynau arbenigwyr' ar ddechrau'r flwyddyn.

Ar hyn o bryd, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn yn cynnal ymchwil i ddefnydd y Gymraeg yn y gweithle ac i'w heffaith ar y broses ymgeisio am swyddi. Mae Prentisiaid a Hyfforddeion Cyngor Gwynedd wedi cyfrannu at yr ymchwil hwn, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar chwalu mythau. Bydd y canfyddiadau'n cael eu rhannu gyda'r Bwrdd yn fuan, gyda'r potensial i ddylanwadu'n ehangach ar draws Cymru unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau.

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r tîm wedi mynychu ffeiriau swyddi ac wedi ymweld ag ysgolion i hyrwyddo swyddi a'r cyfleoedd amrywiol i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae

hyrwyddo sylweddol hefyd wedi bod ar y cynllun Profiad Gwaith, er mwyn sicrhau bod cyfleoedd yn cyrraedd pobl ifanc sydd â diddordeb mewn profiad gwaith gyda'r Cyngor.

Mae'r tîm yn rhannu cyfleoedd yn rheolaidd gyda phrentisiaid a hyfforddeion proffesiynol i fynychu sesiynau gloywi iaith a chodi hyder.

Gwelwyd cynllun arloesol Undeb y Dyfodol yn dwyn ffrwyth, gyda'u digwyddiad cyntaf (yn galluogi staff dan 5 mlynedd o wasanaeth i ymgysylltu a chymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn awyrgylch hamddenol.) Fe gynhaliwyd clwb darllen. Maen nhw'n cyfarfod yn fisol. Bydd gweithgareddau corfforaethol yn dechrau yn 2026 a'r gobaith yw cael mwy o glybiau/gweithgareddau cymdeithasol.

Hyfforddiant iaith:

Bydd angen ceisio sicrhau cyllid er mwyn parhau â'r prosiect hyfforddiant iaith yn y maes gofal ar ôl Mawrth 2026. Mae adborth cadarnhaol iawn wedi bod i'r gwaith hyd yma - mae'r aelodau o staff sy'n derbyn gwersi i weld wedi ymrwymo'n llawn i'r gwaith ac yn barod yn defnyddio mwy ar eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle. Mae oddeutu 50 o aelodau o staff yn derbyn gwersi gan y tiwtor ar hyn o bryd, ac mae mwy yn disgwyl i gael bod yn rhan o'r cynllun hefyd.

Bydd hyfforddiant Technoleg Cymraeg yn cael ei ddatblygu yn 2026 er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r adnoddau sydd ar gael ar-lein i'w cefnogi wrth weithio trwy'r Gymraeg, e.e. Cysgliad, geiriaduron ar-lein ayyb.

Bydd hyfforddiant Cymraeg Elfennol hefyd yn cael ei ddatblygu. Pwrpas yr hyfforddiant yma fydd rhoi'r cyfle i edrych ar rai o brif elfennau sylfaenol gramadeg y Gymraeg, e.e. ansoddeiriau, berfau, enwau, cenedl enwau.

Mae'r **Gwasanaeth Gofal Cwsmer a Chofrestru** yn parhau i roi pwysau a chydweithio gyda'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol i adolygu deddfwriaeth i alluogi cwsmeriaid i gofrestru digwyddiadau yn y Gymraeg/Dwyieithog/Saesneg os mai dyma yw eu dymuniad.

3. Ydy datblygiad technoleg wedi amharu ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? Os yn berthnasol rhwch enghraifft. Sut ydych chi'n sicrhau nad yw datblygiad technoleg yn effeithio ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

Mae'r **Gwasanaeth Caffael** wedi gweld fod datblygiadau i'r system gyhoeddi tendrau cenedlaethol 'Gwerthwch i Gymru' wedi amharu ar ddefnydd yr iaith gyda nifer yn hysbysebu'n uniaith Saesneg. Nid yw'r system yn hawdd i'w defnyddio ac angen dealltwriaeth bod y Gymraeg a'r Saesneg angen ei cynnwys o fewn un hysbyseb.

Mae'r **Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu** yn nodi tystiolaeth fod teclynnau cyfieithu ar lwyfannau megis Facebook yn cam-gyfieithu negeseuon y Cyngor ac yn llesteirio gallu preswylwyr i dderbyn gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Nid yw'r dechnoleg 'analytics' cyfryngau cymdeithasol sydd ar gael ar hyn o bryd yn gweithio yn y Gymraeg (mesur sentiment, y defnydd o "tags", trefnu ymgyrchoedd ac ati). Mae hyn yn golygu nad ydym yn gallu defnyddio'r dechnoleg i'r eithaf.

Nid yw'r gwasanaethau monitro'r wasg sydd ar gael yn fasnachol yn monitro cyfryngau iaith Gymraeg. Felly, mae rhaid gwneud y gwaith monitro yma yn fewnol. Hefyd, nid yw'r meddalwedd is-deitl a thraws-ysgrifo ar lwyfannau fel YouTube yn gweithio yn Gymraeg. Rydym felly yn gorfod ymgymryd ar gwaith llafurus yma'n fewnol.

Nodai'r **Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith** fod y tîm Cyfieithu bellach yn defnyddio meddalwedd sy'n cynnwys cyfieithu peirianyddol sy'n cyflymu'r broses cyfieithu i'r tîm. Fodd bynnag, mae'r angen i wirio a phrawf-ddarllen unrhyw allbwn cyfieithu peirianyddol yn angenrheidiol, ac mae'r tîm yn cymryd gofal mawr wrth wneud hyn er mwyn sicrhau y cynhelir y safonau arferol.

Yn ogystal, mae datblygiadau gyda thechnoleg erbyn hyn yn galluogi i unrhyw un ddefnyddio deallusrwydd artiffisial i gyfieithu dogfennau, ond mae risg i'r Cyngor os defnyddir y dechnoleg hon heb brawf-ddarllen yn ofalus. Dylid sicrhau bod unrhyw ddogfennau swyddogol yn cael eu cyfieithu drwy'r tîm Cyfieithu.

Dyw'r **Gwasanaeth Ymgynghorol Iechyd, Diogelwch a Llesiant** ddim wedi gweld fod datblygiad technoleg wedi amharu ar eu gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Fodd bynnag, maent yn barhaus yn ceisio sicrhau fod platfformau e-ddysgu a systemau digidol yn cefnogi'r Gymraeg. Maent yn gwneud hyn wrth gomisiynu systemau neu hyfforddiant e-ddysgu gan sicrhau fod y gofyn wedi ei nodi yn glir yn y briff.

O ran y **Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth** mae iGwynedd (system ffeilio electronig y Cyngor) yn gweithio'n gwbl ddwyieithog gan hybu gallu'r Cyngor i weithredu'n fewnol drwy'r Gymraeg.

Mae'r gwasanaeth wedi datblygu a rhannu cyfres o ddashfyrdau data a gwybodaeth (Power BI) ar gyfer defnydd mewnol / allanol, ac wedi arloesi yn natblygu'r rhain yn Gymraeg neu (ar gyfer defnydd allanol) yn ddwyieithog gyda'r gallu i newid rhwng un iaith a'r llall.

Mae'r **Gwasanaeth Gofal Cwsmer a Chofrestru** yn delio yn uniongyrchol gyda chwsmeriaid, nid ydynt yn archebu system heblaw fod y gallu yno i ni ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg.

4. Sut ydych chi'n cadw cofnod o'r bobl sy'n defnyddio eich gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg? Allwch chi rannu data perthnasol?

Mae'r Gwasanaeth **Cyfathrebu ac Ymgysylltu** yn casglu data am y niferoedd sy'n defnyddio gwefan y Cyngor drwy'r Gymraeg.

Fel rhan o'r gwaith sydd digwydd yng nghyswllt Prosiect 15 sydd yn cael ei arwain gan y Gwasanaeth **Democratiaeth ac Iaith** rhwng Mehefin a Tachwedd 2025, mae 151 dilynwr ychwanegol ar Instagram a 95.2K wedi edrych ar y cynnwys. O ran Tiktok, mae cynnwys Prosiect 15 wedi cyrraedd 346K (sydd yn gynydd o 338K ers llynedd.)

Cesglir data gan y Gwasanaeth **Dysgu a Datblygu'r Sefydliad**. Mae'r Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg yn cadw gwybodaeth am lefelau iaith holl staff y Cyngor (gan ddefnyddio'r holiadur hunanasesu iaith sydd ar gael ar Hunanwasanaeth Staff) yn ogystal â gwybodaeth am holl staff y Cyngor sy'n mynychu hyfforddiant iaith.

Ar draws y Cyngor, mae 29 aelod o staff yn derbyn hyfforddiant iaith ar hyn o bryd, gyda 10 ychwanegol wedi cofrestru ar hyfforddiant sydd eto i ddechrau. Cynhaliwyd sgwrs ymgynghorol gydag 8 aelod arall o staff sydd eto i gofrestru ar gwrs addas.

O ran hyfforddiant corfforaethol ar system MoDS y cesglir cofnod o ba gyfrwng y mae staff wedi gwneud eu hyfforddiant. Y data ar gyfer 2025 yw:

Hyfforddiant Corfforaethol 2025	Teitl	Digwyddiad	Cyfanswm unigolion wedi mynychu
Cyfrwng Cymraeg	78	270	2,461

Mae'r **Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant** yn casglu gwybodaeth ynglŷn â'r nifer o staff sydd wedi mynychu hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer eu cyrsiau. Y data ar gyfer 2025 yw:

Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch	Nifer unigolion sydd wedi derbyn hyfforddiant iechyd a diogelwch trwy gyfrwng y Gymraeg 1.1.25 – 31.12.25
IOSH Rheoli'n Ddiogel (cwrs 3 diwrnod)	83
IOSH (Adnewyddu)	26
iAct	58
Symud a Thrin Pob (2 ddiwrnod)	93
Symud a Thrin Gwrthrychau	346
Rheoli Safle	83
Hyfforddiant Adrodd Digwyddiadau (Damweiniau a Methiannau Agos)	31

Mae'r **Gwasanaeth Gofal Cwsmer a Chofrestru** yn cadw cofnod o gyfrifon system CRM hunan wasanaeth sydd wedi dewis Cymraeg fel eu prif iaith.

5. Beth yw sgiliau iaith eich staff?

Mae **171** o staff yn Adran Gwasanaethau Corfforaethol. O'r **171** mae **164** wedi cwblhau'r holiadur iaith ac mae gan **166** rhyw fath o asesiad iaith (wedi cwblhau'r holiadur neu dderbyn asesiad syml gan reolwr llinell).

O ran gwasgariad lefelau iaith mae **6** unigolyn ar lefel Canolradd, **40** ar lefel Uwch a **118** ar lefel Hyfedredd. Mae **2** unigolyn wedi derbyn asesiad iaith gan eu rheolwr llinell a does gan **5** ddim asesiad iaith hyd yma.

6. Rhowch enghreifftiau o unrhyw rwystrau, cwynion a chanmoliaeth sy'n gysylltiedig gyda darparu a hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Gweler isod enghreifftiau gan Adran Gwasanaethau Corfforaethol o rwystrau, cwynion a chanmoliaeth sy'n gysylltiedig gyda darparu a hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg:

Canmoliaeth:

Mae'r **Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad** wedi derbyn camoliaeth yn dilyn darparu hyfforddiant yn y maes iaith, gweler enghraifft:

"Ar ôl wneud cwrs 'codi hyder' yn yr haf - dw i newydd gofrestru mewn cwrs Uwch 3 ar lein. Nawr dw i'n gallu anfon neges e-bost yn y Gymraeg ac hefyd siarad gyda mwy o hyder gyda cleientau. Dw i dal mynd am coffi bob wythnos gyda fy muddy Cymraeg - amser i cael sgwrs yn y Cymraeg am pob dim mewn lle heb poeni fod yn gywir - dim ond amser i ymarfer a codi hyder."

Derbyniwyd adborth hefyd yn dilyn cynnal sesiwn i griw oedd ar gwrs yn Nant Gwrtheyrn, gweler enghraifft:

"Dim ond gair i ddiolch yn fawr iawn i ti am drefnu prynhawn Mercher, roedd [y tiwtoriaid] yn eich canmol chi'n fawr ac roedd y dysgwyr hefyd wedi mwynhau. Rwy'n gwerthfawrogi'n arw eich bod wedi rhoi o'ch amser iddyn nhw."

Mae'r **Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant** wedi derbyn adborth cadarnhaol gan reolwyr am gael cwrs IOSH yn y Gymraeg. Mae cael yr hyfforddiant yma ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn gam pwysig iawn i hyrwyddo'r iaith Gymraeg mewn maes technegol.

Rhwystrau:

Diffyg argaeledd darpariaeth yn y Gymraeg gan bartneriaid yn y sector gyhoeddus megis WLGA a Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r diffyg yma yn golygu ein bod ni fel sefydliad yn cael gwaith ychwanegol i sefydlu ffordd amgen o weithio byth a beunydd. Mae'r maes hyfforddiant yn un enghraifft.

Gweler y **Gwasanaeth Caffael** fod busnesau ddim yn edrych ar fersiwn Gymraeg o dendrau ac yn dueddol o ymateb mewn Saesneg. Mae rheoliadau, templedi a chanllawiau caffael yn dueddol o cael ei cynhyrchu yn Saesneg, cost ac amser cyfieithu, costau uwch o gael systemau/gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, ddadl bod llai o risg cael cytundeb uniaith. Yn ogystal dyw rhai o'r systemau ddim yn rhwydd i'w defnyddio ac ymdeimlad o ddyblygu gwaith.

O ran y **Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad** ar Tim Talent a Phrentisiaethau yn benodol Am ddwy flynedd yn olynol, mae'r ganran sy'n dymuno astudio drwy gyfrwng y Saesneg wedi aros yn 80.0%, gyda 20.0% yn dymuno astudio drwy'r Gymraeg. Er bod gwelliant wedi bod yn y ddarpariaeth Gymraeg, nid yw hyn eto wedi arwain at gynnydd yn y galw am astudio drwy'r Gymraeg. Mae ein cyrhaeddiad ni fel Tîm Talent a Phrentisiaethau yn gyfyngedig, yn ddelfrydol mae angen pwynt canolog a sefydlog o fewn y cyngor sydd gyda chysylltiad â dylanwad dros aelodau ar draws y cyngor sy'n astudio'n seiliedig ar waith, i sicrhau gwelliant.

Ar gyfer sgiliau iaith mae rhwystr o ran cywirdeb sata sgiliau iaith staff mae problemau wedi bod gyda'r data ers mis Mai 2025. Er eu datrys cododd mwy o broblem ond mae TG wedi cadarnhau fis Rhagfyr 2025 fod popeth yn iawn ar hyn o bryd. Mae swm y data sydd wedi'i gasglu bellach yn golygu fod y system TG yn cael ei gorlwytho. Canlyniad hyn ydi bod y gwasanaeth TG wedi atal y gallu i dynnu adroddiadau cynhwysfawr o'r adran 'Sgiliau Iaith Staff' yn MoDS. Gan y bydd system newydd yn cael ei defnyddio erbyn diwedd y flwyddyn ni fydd gwaith datblygol yn cael ei wneud yn y cyfamser.

Gwelodd y **Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth** y drefn o enwi ardaloedd ystadegol ('Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is' neu 'LSOAs') yn rhwystr gan fod y drefn o enwi yn anghyson rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac anodd paru data efo'i gilydd gan fod gwahanol setiau data yn gallu defnyddio gwahanol fersiynau o'r enwau. Dros y flwyddyn ddiwethaf fe wnaethom weithio gyda Llywodraeth Cymru i gytuno un set o enwau ar eu cyfer, sy'n defnyddio'r enw Cymraeg ar ardaloedd (a gan geisio eu gwneud yn fwy ystyrion i bobl leol hefyd). Gwelwyd budd hyn yn ddiweddar pan gyhoeddwyd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025 yn defnyddio'r enwau newydd Cymraeg yma ar gyfer Gwynedd.

Mae'r **Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant** wedi gweld rhwystr mewn cyfyngiadau technegol ar rai platfformau hyfforddiant rhyngwladol sy'n anodd eu cyfieithu'n llawn.

Nodai'r **Gwasanaeth Gofal Cwsmer a Chofrestru** oherwydd deddfwriaeth nid yw'n bosib ar hyn o bryd i drigolion gofrestru yn uniaith Gymraeg. Mae trafodaethau yn mynd rhagddo er mwyn pwysleisio'r pwysigrwydd o roi dewis i drigolion ym mha iaith hoffem gofrestru digwyddiadau. Derbynnir cwynion gan gwsmeriaid nad oes modd iddynt gofrestru digwyddiadau genedigaeth yn y Gymraeg, mae rhain yn cael eu cyfeirio i'r Swyddfa

Gofrestru Gyffredinol gan mai'r ddeddfwriaeth sydd yn rhwystro hyn a nid trefniadau'r Cyngor.

Nid yw'r ddarpariaeth Gymraeg ar wefan bathodynnew glas direct.gov yn dda iawn. Mae hyn wedi'i godi gyda Llywodraeth Cymru yn hanesyddol yn golygu nad ydym yn hyrwyddo hunan wasanaeth bathodyn glas ar wefan y Cyngor.

Mae gan y Gwasanaeth Cofrestru gyda rhai ffurflenni sydd wedi'u darparu gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol yn uniaith Saesneg. Mae hyn wedi'i ei adrodd i'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol. Mae ceisio cael y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol i ddarparu ffurflen ddwyieithog ar wefan direct.gov yn anodd iawn.

Adroddiad yr adran i Bwyllgor Iaith 2025:

[Adroddiad Adran Gwasanaethau Corfforaethol.pdf](#)